

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Bil Addysg Bellach ac Uwch
(Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Gorffennaf 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8242

Ffacs: 029 2089 8021

E-bost: PwyllgorPPI@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2013

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Bil Addysg Bellach ac Uwch
(Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)

Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Gorffennaf 2013



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gylch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cwmpasu: addysg, iechyd a lles plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Ann Jones (Cadeirydd)

Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



Angela Burns

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Caerfyrddin
a De Sir Benfro



Keith Davies

Llafur Cymru
Llanelli



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Rebecca Evans

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Bethan Jenkins

Plaid Cymru
Gorllewin De Cymru



Lynne Neagle

Llafur Cymru
Tor-faen



David Rees

Llafur Cymru
Aberafan



Aled Roberts

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gogledd Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Cynnwys

Crynodeb o'r Prif Gasgliadau	5
Argymhellion y Pwyllgor	8
1. Cyflwyniad a dull craffu'r Pwyllgor	10
Cwmpas y gwaith craffu.....	10
Sut aeth y Pwyllgor ati i gasglu tystiolaeth.....	11
2. Cefndir Polisi	12
Ymgynghoriad Papur Gwyn	12
Addysg Bellach	12
Addysg Bellach	12
Y Sector Addysg Bellach yng Nghymru	13
Ystadegau Allweddol	14
Ariannu'r Sector Addysg Bellach (AB) yng Nghymru	15
Adolygiadau blaenorol o lywodraethu mewn addysg bellach.....	15
3. Diben ac effaith y Bil	16
Sefydliadau Addysg Bellach.....	16
Dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Sefydliadau Addysg Bellach	16
Newidiadau sy'n berthnasol i ddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.....	18
Effaith ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Bellach	19
Addysg Uwch.....	20
Rhannu data am grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr.....	20
Darpariaethau eraill	21
4. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am ddeddfwriaeth	22
Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil	22
Ein barn ni.....	22
Egwyddorion cyffredinol	22
Y Rheswm am y Newid	23

Ein barn ni.....	25
Canlyniadau dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol	26
Rheolau Cyfrifyddiaeth	26
Goblygiadau ar gyfer cyllidebau Llywodraeth Cymru.....	27
Goblygiadau ar gyfer cyllidebau Sefydliadau Addysg Bellach.....	28
Canlyniadau Eraill.....	28
Ein barn ni.....	30
Dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Y Sefyllfa yn yr Alban..	31
Safbwynt y Trysorlys	32
Ein barn ni.....	34
5. Pwerau ymyrryd a chyfeirio Llywodraeth Cymru.....	35
Newidiadau i'r Memorandwm Ariannol a'r amodau cyllid grant.....	35
Ailsefydlu cyngor cyllido?.....	36
Ein barn ni.....	37
6. Y goblygiadau i ddysgwyr, cymunedau a staff AB.....	38
Cyflwyniad.....	38
Offerynnau ac erthyglau llywodraethu.....	38
Staff a Chynrychiolwyr Dysgwyr	39
Cynrychiolwyr Cyflogwyr a Busnes	41
Dyletswydd i ymgynghori â dysgwyr a chyflogwyr lleol.....	43
Barn y Swyddfa Ystadegau Gwladol	45
Ein barn ni.....	45
7. Darpariaethau sy'n ymwneud â'r sector addysg uwch.....	46
Cyflwyniad.....	46
Pŵer i reoleiddio Cysiau Addysg Uwch ym maes Addysg Bellach ...	46
Ein barn ni.....	49
Cyflenwi gwybodaeth ynghylch grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr.	49
Ein barn ni.....	51
8. Effeithiau ar grwpiau penodol	53
Y Gymraeg.....	53

Ein barn ni.....	53
Cymorth ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.	53
Ein barn ni.....	54
Atodiad A – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig	55
Atodiad B – Tystion.....	57

Crynodeb o'r Prif Gasgliadau

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar ôl iddo fod yn ystyried Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) yn ystod Cyfnod 1 y broses.

Buom yn craffu'n fanwl ar y Bil a chredwn y dylid ei wella drwy wneud nifer o welliannau penodol i'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach. Amlinellir y materion hyn, ynghyd ag argymhellion perthnasol, maes o law yn yr adroddiad hwn.

Egwyddorion cyffredinol

Fel sy'n ofynnol dan Reol Sefydlog 26.10, rydym wedi hystyried hefyd yr egwyddorion cyffredinol sy'n sail i'r Bil:

- y dylid llacio rheolaethau deddfwriaethol ar Sefydliadau Addysg Bellach; ac
- y dylai Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi allu rhannu data am grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr gyda Gweinidogion Cymru er mwyn symleiddio'r broses o wneud cais am grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr a'i gwneud yn fwy effeithlon.

Rydym yn fodlon â'r ail egwyddor ond mae gennym amheuan sylweddol am y cyfiawnhad sy'n sail i'r ddeddfwriaeth.

Rhagor o Annibyniaeth i Golegau

Yn 2010, penderfynodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol gynnwys Sefydliadau Addysg Bellach fel rhan o lywodraeth ganolog at ddibenion y cyfrifon cenedlaethol. Cafodd cyrff Addysg Bellach mewn rhannau eraill o'r DU eu hailddosbarthu yn yr un modd. Ymhlith y ffactorau a arweiniodd at benderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol oedd yr amryw o reolaethau statudol y gall Gweinidogion Cymru eu harfer dros Sefydliadau Addysg Bellach. Mae'r rhain yn cynnwys cyfyngiadau ar fenthycia, y grym i newid trefniadau llywodraethu a chyfyngiadau ar weithredu trwy is-gyrff.

Nid yw effaith yr ailddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei deimlo hyd yma ond mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd yn cael effaith negyddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru, yn enwedig

cyllidebau cyfalaf, a gallai olygu nad oes cymhelliant i Sefydliadau Addysg Bellach reoli eu hadnoddau'n effeithiol. Bydd y newidiadau a gynigir yn y Bil yn caniatáu i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailgyflwyno'r dosbarthiad blaenorol, a fydd yn lliniaru'r effeithiau hyn ac yn caniatáu i drefniadau rheoli ariannol y sector barhau fel ag y maent.

Fodd bynnag, gellid defnyddio'r annibyniaeth ychwanegol y bydd y Bil yn ei rhoi i Sefydliadau Addysg Bellach mewn ffyrdd a allai arwain at ddarnio'r sector ymhellach hefyd, er enghraifft, mewn perthynas â chyflogau ac amodau staff, a dull mwy cystadleuol o gyflenwi darpariaeth addysgol, yn cynnwys defnyddio mwy o'r sector preifat. Mater arall hefyd yw a fydd Llywodraeth Cymru yn gallu parhau i arfer rheolaethau ariannol effeithiol dros y cyllid mae'n ei ddarparu i Sefydliadau Addysg Bellach.

Dywedodd y Gweinidog blaenorol yn blwmp ac yn blaen na fyddai wedi gweithredu fel ag y gwnaeth i ddwyn y Bil hwn ymlaen oni bai am ddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Felly, mae polisi'n cael ei lywio'n bennaf gan reolau cyfrifyddu i bob pwrpas.

Dulliau Amgen

Nid llacio rheolaethau'r Llywodraeth i ailgyflwyno dosbarthiad blaenorol y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r unig ddewis polisi sydd ar gael. Mae Llywodraeth yr Alban wedi penderfynu dilyn trywydd gwahanol, sy'n cadw Sefydliadau Addysg Bellach yn uniongyrchol atebol i'r Llywodraeth.

Fodd bynnag, mae gan y dull hwn ei anawsterau hefyd, yn cynnwys yr angen i newid trefniadau cyfrifyddu Sefydliadau Addysg Bellach a chael sêl bendith Trysorlys EM i lacio rhai o reolau cyllidebu'r Llywodraeth. Hyd yn hyn, nid yw'r Trysorlys wedi cytuno i ddull Llywodraeth yr Alban. Er hynny, mae Llywodraeth yr Alban o'r farn y byddai llwyddiant yn fwy tebygol pe bai'r gweinyddiaethau datganoledig yn dod at ei gilydd i gyflwyno cynnig i'r Trysorlys a byddai'n croesawu datblygu cynnig ar y cyd. Mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â dilyn y trywydd hwn, gan gredu ei bod yn annhebygol y derbynnir sêl bendith y Trysorlys.

Barn Trysorlys EM?

Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod y Trysorlys yn annhebygol o ymateb yn gadarnhaol i unrhyw gynnig. Pryderwn fod cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru fel pe bai'n seiliedig ar ragdybiaeth ynglŷn ag ymateb y Trysorlys sydd heb ei brofi. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu i'r Trysorlys i gael cadarnhad o'u barn, nac wedi ceisio cynnal trafodaeth â nhw. Byddem wedi disgwyl i'r polisi fod wedi'i seilio ar sefydlu safbwynt y Trysorlys yn ffurfiol.

Ni chawsom dystiolaeth o ran a allai'r sector addysg bellach elwa yn sgil rhagor o annibyniaeth neu o ran a oes digon o fesurau mewn grym i sicrhau y gellir arfer yr annibyniaeth honno'n gyfrifol. Teimlwn yn anghyfforddus yn cytuno i'r annibyniaeth ychwanegol honno pan nad yw'r opsiwn o gadw atebolrwydd uniongyrchol wedi ei drafod yn llawn gyda'r Trysorlys.

Argymhellion y Pwyllgor

Mae argymhellion y Pwyllgor i Lywodraeth Cymru i'w gweld isod, yn y drefn y maent yn ymddangos yn yr adroddiad hwn. Ewch i'r tudalennau perthnasol yn yr adroddiad i weld y dystiolaeth a'r casgliadau ategol:

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylid llunio Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn nodi'n fanylach ac yn fwy eglur y risgiau sy'n gysylltiedig â dull y Bil o liniaru effeithiau dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (Tudalen 30)

Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'n drylwyr effeithiau'r Bil yn ymarferol ac a yw'r effeithiau hyn yn dylanwadu ar rannau eraill o'i rhaglen ddeddfwriaethol neu ar faterion ehangach fel y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol. (Tudalen 30)

Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn y drafodaeth ar yr egwyddorion cyffredinol, drafod yn llawn â Thrysorlys EM y posibilrwydd o addasu rheolau cyfrifyddu'r Llywodraeth i helpu i liniaru effeithiau dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (Tudalen 34)

Argymhelliad 4: Rydym yn argymhell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i nodi y dylai o leiaf ddau aelod o gorff llywodraethu coleg fod yn gynrychiolwyr myfyrwyr. (Tudalen 41)

Argymhelliad 5: Rydym yn argymhell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i nodi y dylai gynrychiolwyr myfyrwyr ar gorff llywodraethu coleg gael eu hethol gan y corff myfyrwyr. (Tudalen 41)

Argymhelliad 6: Rydym yn argymhell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i nodi y dylai dau gynrychiolydd staff ar gorff llywodraethu coleg gael eu hethol yn gynrychiolwyr staff y sefydliad. (Tudalen 41)

Argymhelliad 7: Rydym yn argymhell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i nodi y dylai cyrff llywodraethu gynnwys gynrychiolwyr cyflogwyr neu fusnesau lleol. (Tudalen 42)

Argymhelliad 8: Rydym yn argymhell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i roi dyletswydd gyffredinol ar gyrf llywodraethu i ymgynghori'n rheolaidd

â chyflogwyr lleol, dysgwyr a chymunedau ar y ddarpariaeth addysg yn y sefydliad dan sylw a sut y mae hynny'n effeithio ar gynllunio'r cwricwlwm lleol. (Tudalen 44)

Argymhelliad 9: Rydym yn argymell bod y Gweinidog yn ailystyried diddymu adran 139 o Ddeddf Addysg 2002, fel a gynigir yn adran 7 o'r Bil. (Tudalen 49)

Argymhelliad 10: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrrwyr beth yw'r ffordd orau o fynd ati i gadw cymorth gan berson i'r rhai sy'n gwneud cais am fenthyciadau i fyfyrwyr ar lefel leol. (Tudalen 52)

Argymhelliad 11: Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus effaith y Bil ar ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. (Tudalen 54)

1. Cyflwyniad a dull craffu'r Pwyllgor

1. Yn ei gyfarfod ar 16 Ebrill 2013, cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru)¹ ('y Bil') i'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ('y Pwyllgor'), i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cyfnod 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad erbyn 19 Gorffennaf 2013.
2. Cyflwynwyd y Bil a'r Memorandwm Esboniadol perthnasol² gerbron y Cynulliad ar 29 Ebrill 2013 gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd. Dilynwyd hyn gan Ddatganiad Deddfwriaethol yn y Cynulliad gan Leighton Andrews ar 30 Ebrill 2013.³
3. O dan Reol Sefydlog 24.5, ni allai Leighton Andrews fod yn Aelod Cyfrifol ar gyfer y Bil ar ôl ymddiswyddo o'r Llywodraeth ar 25 Mehefin 2013. Mae Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau newydd, wedi cymryd ei le fel yr Aelod Cyfrifol.

Cwmpas y gwaith craffu

4. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 1 Mai 2013 cytunodd ar y fframwaith a ganlyn ar gyfer craffu ar egwyddorion cyffredinol y Bil:

Ystyried:

- i) a oes angen y Bil;
- ii) prif ddarpariaethau'r Bil ac a ydynt yn briodol i gyflawni'r amcanion a nodwyd ynddo;
- iii) goblygiadau ariannol y Bil;
- iv) unrhyw rwystrau posibl i roi'r prif ddarpariaethau ar waith ac a yw'r Bil yn eu hystyried;

¹ Mae'r Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru) ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=245734&ds=4/2013>

² Mae'r Memorandwm Esboniadol ar gael yn: <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=245735&ds=4/2013>

³ Cofnod y Trafodion 30 Ebrill 2013: http://www.cynulliadcymru.org/docs/rop_xml/130430_plenary_bilingual.xml#80084

- v) a oes unrhyw ganlyniadau anfwriadol yn deillio o'r Bil;
- vi) barn rhanddeiliaid; a
- vii) faint o fanylion a geir ar wyneb y Bil o gymharu ag unrhyw bwerau a geir mewn is-ddeddfwriaeth.

Sut aeth y Pwyllgor ati i gasglu tystiolaeth

5. Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad⁴ gan wahodd rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Mae rhestr o ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.
6. Bu'r Pwyllgor yn gwranddo ar dystiolaeth lafar ar y Bil gan nifer o dystion. Mae amserlen y sesiynau tystiolaeth lafar i'w gweld yn Atodiad B. Mae trawsgrifiadau llawn o'r sesiynau hyn ar gael ar wefan y Cynulliad yn: <http://www.cynulliadcymru.org/>
7. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd.

⁴ Dogfennau ymgynghori:
<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s17062/Consultation%20letter.pdf>

2. Cefndir Polisi

Ymgynghoriad Papur Gwyn

8. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddogfen ymgynghori Papur Gwyn ar Fil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) ar 2 Gorffennaf 2012. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 24 Medi 2012.

Addysg Bellach

9. Roedd y cynigion yn y Papur Gwyn sy'n berthnasol i addysg bellach yn ymdrin â'r un prif feysydd â'r Bil sy'n cael ei gyflwyno'n awr.

Addysg Bellach

10. Fodd bynnag, roedd y cynigion ar gyfer y sector addysg uwch yn y Papur Gwyn yn wahanol iawn i'r rheini yn y Bil. Roedd y Papur Gwyn yn cynnwys cynigion i fynd i'r afael â'r angen i ailddiwygio'r fframwaith atebolrwydd a rheolaeth sy'n gweithredu trwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC) er mwyn ystyried y drefn newydd o ffioedd dysgu ac ariannu a gyflwynwyd o fis Medi 2012.

11. Ar 6 Mawrth 2013, cyhoeddodd y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd ddatganiad ysgrifenedig i gyd-fynd â chyhoeddi crynodeb o ymatebion i'r Papur Gwyn a oedd yn nodi:

“O ran addysg uwch, rwyf wedi gofyn i'm swyddogion ddadansoddi a datblygu ymhellach y cynigion yn y Papur Gwyn. Byddaf yn cyflwyno'r darpariaethau mewn perthynas â diwygio addysg uwch drwy ddeddfwriaeth yn hwyrach yn ystod tymor y Cynulliad hwn. (...)Byddwn yn bwrw ymlaen â'r darpariaethau mewn perthynas ag Addysg Bellach a Rhannu Data Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel deddfwriaeth i'w chyflwyno yng ngwanwyn 2013.”⁵

12. Nid oedd y Papur Gwyn yn ymgynghori ar y cynigion i rannu data mewn perthynas â grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr a nodir yn adran 9 o'r Bil. Dywed Llywodraeth Cymru mai'r rheswm am hyn yw eu bod yn cael eu hystyried yn fân newidiadau technegol, a fydd yn sicrhau

⁵ Crynodeb Llywodraeth Cymru o Ymatebion i'r Papur Gwyn – Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru) 2013 (paragraff 3): <http://www.cynulliadcymru.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-written-ministerial-statements.htm?act=dis&id=243827&ds=3/2013>

bod gan Weinidogion Cymru yr un swyddogaethau â'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer Busnes, Arloesedd a Sgiliau yn Lloegr a'r Adran Addysg yng Ngogledd Iwerddon.

Y Sector Addysg Bellach yng Nghymru

13. Mae Addysg Bellach (AB) yn cynnwys darpariaeth addysg a hyfforddiant ar gyfer pobl 16 oed a hŷn yn bennaf,⁶ o sgiliau sylfaenol a hyfforddiant seiliedig ar waith i raddau sylfaen. Addysgir rhaglenni AB yn bennaf mewn colegau AB ac amgylcheddau dysgu seiliedig ar waith a dysgu oedolion yn y gymuned.

14. Mae Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru yn cynnwys Corfforaethau Addysg Bellach, a sefydlwyd dan Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (FHEA 1992), a sefydliadau a ddynodir drwy orchymyn o dan yr un Ddeddf.

15. Ar ôl sawl enghraifft o golegau'n uno, mae cyfanswm o 18 Sefydliad Addysg Bellach yng Nghymru erbyn hyn ac maent yn cynnwys 14 o gorfforaethau AB:

- Coleg Pen-y-bont
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Coleg Ceredigion
- Coleg Gwent
- Coleg Morgannwg
- Coleg Powys
- Coleg Sir Gâr
- Coleg Glannau Dyfrdwy
- Coleg Gŵyr Abertawe
- Grŵp Llandrillo Menai
- Coleg Castell-nedd Port Talbot
- Coleg Sir Benfro
- Coleg Iâl
- Coleg Ystrad Mynach

⁶ Papur Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Strwythur Addysg Bellach yng Nghymru, tudalen 1, Ebrill 2013

Hefyd, mae pedwar sefydliad AB dynodedig (CAG y Gogledd Coleg Harlech; Coleg Catholig Dewi Sant, Caerdydd; CAG y De; a Choleg Cymunedol y YMCA).⁷

16. Ym mis Gorffennaf 2012, dywedodd Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, fod disgwyl tri achos arall o uno colegau erbyn mis Awst 2013.⁸ Yn y cyfamser, mae'r colegau canlynol wedi cyhoeddi eu bod yn uno:

- bydd Coleg Iâl a Choleg Glannau Dyfrdwy yn uno ar 1 Awst 2013 i greu Coleg Cambria;
- bydd Coleg Ystrad Mynach a Choleg Morgannwg yn uno ym mis Awst 2013 i greu Coleg y Cymoedd;
- bydd Coleg Powys a Choleg Castell-nedd Port Talbot yn uno ar 1 Awst 2013.

17. Mae Coleg Sir Gâr⁹ a Choleg Ceredigion¹⁰ ill dau wedi gofyn i Lywodraeth Cymru am gyllid i gefnogi eu hachosion busnes dros uno â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant. Mae Coleg Sir Benfro yn awyddus i gymryd rhan mewn trafodaethau ar brifysgol deu-sector (AB ac AU) i greu cynghrair ranbarthol yn y De-orllewin.^{11 12}

Ystadegau Allweddol

18. Roedd cyfanswm o 195,900 o ddysgwyr yn astudio yn Sefydliadau Addysg Bellach Cymru yn 2010-11, gostyngiad o 22 y cant ers 2006-07. Mae ychydig dros ddwy ran o dair ohonynt yn 20 oed a hŷn, a mymryn yn is na thraean yn 16-19 oed. Mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr (67.8 y cant yn 2010-11) yn astudio'n rhan-amser. Roedd Sefydliadau

⁷Ibid, tudalen 7

⁸ Coleg Glannau Dyfrdwy, [Coleg Cambria – the new college for North East Wales](#), 3 Rhagfyr 2013; Coleg Morgannwg, College News, [New name reflects landscape of college](#), 21 Chwefror 2013; Coleg Castell-nedd Port Talbot, News/ Events, [Coleg Powys and Neath Port Talbot College announce merger plans](#), 25 Medi 2012

⁹ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar benderfyniad, Cyllid i gynorthwyo i uno Coleg Sir Gâr â Phrifysgol Cymru, y Drindod Dewi Sant, 5 Tachwedd 2012 [fel ar 5 Mawrth 2013]

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Adroddiad ar benderfyniad, Cyllid i gynorthwyo i uno Coleg Ceredigion â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, 7 Chwefror 2013 [fel ar 5 Mawrth 2013]

¹¹ Llywodraeth Cymru, Rhaglen Lywodraethu – Atodiad 2012 – Addysg, Mai 2012

¹² Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, Trawsnewid Addysg.... Trawsnewid Bywydau, 2012

Addysg Bellach yn cyflogi 8,810 o staff (cyfwerth ag amser llawn) yng Nghymru yn 2010-11.¹³

Ariannu'r Sector Addysg Bellach (AB) yng Nghymru

19. Yn 2012/13, cafodd Sefydliadau Addysg Bellach yng Nghymru gyllid gwerth £311.9 miliwn gan Lywodraeth Cymru (ac eithrio dysgu seiliedig ar waith). Mae hyn yn gynnydd o £8.7 miliwn neu 2.9 y cant mewn cyllid yn eu 2011-12 a 2012-13.¹⁴

20. Mae colegau Cymru hefyd yn gallu cynhyrchu eu hincwm eu hunain drwy godi ffioedd, cynnig cyrsiau am y gost lawn, gwasanaethau ymgynghori, myfyrwyr tramor, gofal plant a gwasanaethau eraill. Yn 2008 (yr ystadegau diweddaraf sydd ar gael), roedd cyfanswm incwm blynyddol colegau Cymru o ffynonellau heblaw'r Llywodraeth yn £89 miliwn.¹⁵

Adolygiadau blaenorol o lywodraethu mewn addysg bellach

21. Mae llywodraethu corfforaethau AB wedi bod yn destun sawl adolygiad, gan gynnwys:

- Adolygiad Webb¹⁶ – 2006-07;
- Adolygiad Rhanddeiliaid o Drefniadau Llywodraethu AB¹⁷ - Mai 2010;
- Adroddiad Humphreys¹⁸ – Mawrth 2011.

¹³ Cyfrifiadau Gwasanaeth Ymchwil gan [StatsCymru Full-time equivalent staff numbers at Further Education Institutions by institution](#)

¹⁴ Papur Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Strwythur Addysg Bellach yng Nghymru, tudalennau 18 ac 19, Ebrill 2013

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Strwythur gwasanaethau addysg yng Nghymru – Adroddiad y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Annibynnol, Mawrth 2011, tudalen 53

¹⁶ Adroddiad yr Adolygiad Annibynnol o Genhadaeth a Diben Addysg Bellach yng Nghymru "The Webb Review", [Promise and Performance](#), Rhagfyr 2007

¹⁷ Llywodraeth [Cynulliad] Cymru, Cyfrifoldeb ac Ymatebolrwydd – adolygiad rhanddeiliaid o Drefniadau Llywodraethu Addysg Bellach, Mai 2010

¹⁸ Adroddiad Adolygaid Humphreys, *Adolygiad Annibynnol o Drefniadau Llywodraethu ar gyfer Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru*, Mawrth 2011

3. Diben ac effaith y Bil

Sefydliadau Addysg Bellach

22. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, nod y Bil yw rhoi rhagor o annibyniaeth i Sefydliadau Addysg Bellach, a gwella'u gallu i wneud penderfyniadau, drwy addasu a chael gwared ar y rheolaethau deddfwriaethol sydd arnynt ar hyn o bryd drwy:

- roi rhagor o annibyniaeth i sefydliadau addysg bellach newid eu Hofferyn ac Erthyglau Llywodraethu;
- caniatáu i gorfforaethau addysg bellach ddiddymu eu hunain;
- rhoi rhagor o ryddid i gorfforaethau addysg bellach fenthyg arian;
- rhoi rhagor o ryddid i gorfforaethau addysg bellach weithredu trwy drefniant is-gorff, (fel cwmni cyfyngedig neu sefydliad elusennol corfforedig) heb gydsyniad Gweinidogion Cymru;
- gwneud darpariaeth fel y gall Gweinidogion Cymru gyfarwyddo corff llywodraethu corfforaeth addysg bellach i benderfynu diddymu ei hun;
- dileu pŵer Gweinidogion Cymru i benodi hyd at ddau aelod o gorff llywodraethu sefydliad addysg bellach;
- newid pwerau Gweinidogion Cymru i gyfarwyddo sefydliadau addysg bellach;
- dileu'r gofyniad i Weinidogion Cymru baratoi polisi ymyrryd;
- cael gwared ar ddyletswydd sefydliadau addysg bellach i ymgynghori â dysgwyr a chyflogwyr;
- dileu'r pŵer sydd gan Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, i gyfyngu ar ddarpariaeth addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach.

23. Nodir y darpariaethau hyn yn Adrannau 1 i 8 y Bil ac yn Atodlen 1 (Offeryn ac Erthyglau Cymdeithasu).

Dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Sefydliadau Addysg Bellach

24. Dywed y Memorandwm Esboniadol mai nod y darpariaethau mewn perthynas ag Addysg Bellach yw galluogi Llywodraeth Cymru i geisio

gwyrdroi penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddsbarthu Sefydliadau Addysg Bellach fel rhan o Lywodraeth Ganolog at ddibenion y Cyfrifon Gwladol ac fel eu bod yn cael eu dosbarthu fel “Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd” (NPISH) unwaith yn rhagor.

25. Ym mis Hydref 2010, cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ei bod wedi ailddosbarthu Corfforaethau Addysg Bellach yng Nghymru a Lloegr, Corfforaethau Colegau Chweched Dosbarth (nad ydynt ond yn bodoli yn Lloegr), Colegau Addysg Bellach yn yr Alban a Sefydliadau Addysg Bellach yng Ngogledd Iwerddon i fod yn rhan o'r sector Llywodraeth Gyffredinol, yn hytrach na'r sector Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roeddent wedi cael eu dosbarthu'n anghywir ers dechrau'r 1990au.

26. Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol¹⁹ aethpwyd ati i aildosbarthu ar ôl darganfod rheolaethau'r sector cyhoeddus dros y sefydliadau hyn, a oedd yn ddigon niferus i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol benderfynu bod y sector cyhoeddus yn rheoli polisi corfforaethol cyffredinol y cyrff hyn.

27. Nodwyd nifer o wahanol reolaethau'r sector cyhoeddus, ond roedd un o'r pwysicaf yn ymwneud â benthyca gan Golegau Addysg Bellach. Ym mhob achos, roedd rhaid i unrhyw Goleg Addysg Bellach gael cydsyniad y llywodraeth i fenthyca arian. Roedd rheolaethau eraill y sector cyhoeddus yn cynnwys rheolaethau dros faterion fel trefniadau llywodraethu a'r gallu i gau neu uno Colegau Addysg Bellach.

28. Penderfynodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol y dylid cymhwyso'r penderfyniad hwn yn ôl-weithredol ar gyfer y cyfnod y dylent fod wedi cael eu dosbarthu o fewn y sector llywodraeth gyffredinol, o fis Ebrill 1993 yng Nghymru, Lloegr a'r Alban ac 1989 yng Ngogledd Iwerddon.

29. Nid oedd penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn effeithio ar statws cyfreithiol colegau.

¹⁹ Y Swyddfa Ystadegau Gwladol: *Classification of Sixth Form and Further Education Institutions* 13 Hydref 2010. [<http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/classifications/na-classifications/classification-articles/class/classification-of-sixth-form-and-further-education-institutions---october-2010.pdf>]

Effaith dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar Gyfrifon Gwladol

30. Gwnaed y penderfyniad ar ddsbarthu yng nghyd-destun y Cyfrifon Gwladol. Mae'r Cyfrifon Gwladol yn rhoi fframwaith ar gyfer disgrifio'r hyn sy'n digwydd mewn economïau gwladol. Mae pob uned sefydliadol sy'n gweithredu mewn economi yn cael ei dosbarthu fel sector sefydliadol. Mae'n ofyniad cyfreithiol i wledydd yr Undeb Ewropeaidd baratoi datganiadau ystadegol penodol ar sail System Ewropeaidd o Gyfrifon 1995 (ESA95)²⁰. Caiff Cyfrifon Gwladol y Deyrnas Unedig eu paratoi gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y sail hon.

31. Ar wahân i ysgolion annibynnol neu breifat, mae'r mwyafrif o sefydliadau addysg ôl-16 yn y DU yn cael eu dosbarthu yn y sector llywodraeth gyffredinol.

32. Ar y cyfan, mae prifysgolion yn cael eu dosbarthu y tu allan i'r sector cyhoeddus, fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd (NPISH). Er bod Prifysgolion yn cael cryn gyllid cyhoeddus, maent yn cael cyllid o ffynonellau eraill hefyd ac maent yn annibynnol iawn, i'r graddau y bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn barnu nad ydynt yn cael eu rheoli gan y Llywodraeth.

33. Mae'r sector NPISH yn cynnwys nifer o gyrff fel prifysgolion, elusennau, undebau llafur neu gyrff cymdeithasau dinesig y gellid eu hystyried yn rhan o'r "Trydydd Sector" (h.y. ddim yn y sector preifat nac yn y sector cyhoeddus) ond mewn perthynas â'r Cyfrifon Gwladol, mae NPISH yn rhan o'r sector preifat.

Newidiadau sy'n berthnasol i ddsbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol

34. Mae'r newidiadau allweddol a gynigir gan y Bil sy'n arbennig o berthnasol i benderfyniad dosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cynnwys:

Benthyca

35. Ar hyn o bryd, rhaid i golegau gael cydsyniad Gweinidog Cymru cyn cytuno i unrhyw drefniant benthyca. Mae'r Swyddfa Ystadegau

²⁰ European System of Accounts 1995:
<http://circa.europa.eu/irc/dsis/nfaccount/info/data/esa95/en/titelen.htm>

Gwladol yn ystyried rheolaethau'r sector cyhoeddus ar fenthyca yn un o'r ffactorau pwysicaf yn eu meini prawf dosbarthu.

Llywodraethu Addysg Bellach – Offeryn ac Erthyglau Llywodraethu

36. Mae'r Bil yn cynnig y bydd Coleg Addysg Bellach yn gallu addasu neu ddisodli ei offeryn ac erthyglau llywodraethu ond rhaid iddynt gynnwys gofynion sylfaenol. Ac eithrio'r elfennau hanfodol hyn, bydd colegau'n rhydd i allu newid eu corff llywodraethu, eu cyfansoddiad a'u ffyrdd o weithio.

37. Mae'r Bil hefyd yn cynnig dileu pŵer Gweinidogion Cymru i benodi hyd at ddau aelod o gorff llywodraethu.

Diddymu

38. Ar hyn o bryd, mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i ddiddymu coleg. Yn lle'r pŵer hwn, mae'r Bil yn rhoi'r gallu i golegau ddiddymu eu hunain a throsglwyddo eu heiddo, eu hawliau a'u rhwymedigaethau i gorff arall. Mae'n cynnwys pŵer i Weinidogion Cymru gyfarwyddo coleg i ddiddymu ei hun hefyd.

39. Mae'r Bil yn cynnwys darpariaeth i Weinidogion Cymru wneud Rheoliadau yn amlinellu'r broses cyn y gall diddymiad gael effaith ac i ba gyrff y gall coleg drosglwyddo ei eiddo, ei hawliau a'i rhwymedigaethau os caiff ei ddiddymu.

Effaith ar gyllidebau Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Bellach

40. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, os na chaiff y penderfyniad i ddsbarthu Sefydliadau Addysg Bellach fel llywodraeth ganolog ei wrthdroi, byddai hyn yn cael effaith ar gyllidebau cyfalaf Llywodraeth Cymru ac yn atal Sefydliadau Addysg Bellach rhag cadw arian dros ben o'u cyllideb.

“I grynhoi, byddai aildosbarthu Sefydliadau Addysg Bellach yn gyrff sector cyhoeddus yn cael effaith negyddol ar gyllideb AdAS a gallai olygu na fyddai gan y sector unrhyw gymhelliant bellach i ychwanegu at ffrydiau incwm drwy droi at ffynonellau heblaw cyllid y llywodraeth, nac ychwaith i reoli'r Sefydliadau Addysg Bellach mor effeithlon ag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. Bydd angen ystyried gyda'r Trysorlys sut yn union y caiff

y cyllidebau eu sgorio. Bydd unrhyw oblygiadau ariannol yn cael eu hysgwyddo gan Brif Grŵp Gwariant AdAS.”²¹

41. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn dweud:

“Mae'r ffaith bod Sefydliadau Addysg Bellach wedi cael eu hailddosbarthu'n gyrrff sector cyhoeddus sy'n rhan o'r llywodraeth ganolog yn cael effaith negyddol ar y sector AB yng Nghymru oherwydd bydd yn arwain at newidiadau i'r modd y caiff gwybodaeth ariannol ei chasglu oddi wrth golegau a'i monitro. Bydd yn effeithio hefyd ar sut y mae Sefydliadau Addysg Bellach yn rheoli eu materion mewnol eu hunain. Byddai gan y newidiadau hyn gryn oblygiadau i Sefydliadau Addysg Bellach, gan gynnwys:

- byddai unrhyw arian dros ben a gynhyrchir gan golegau yn cael ei gyfrif yn rhan o gronfeydd Llywodraeth Cymru;
- ni fyddai Sefydliadau Addysg Bellach yn gallu cadw arian dros ben i ddatblygu cronfeydd wrth gefn i dalu am brosiectau yn y dyfodol;
- byddai'n rhaid iddynt fodloni gofynion ariannol a gofynion cyfrifyddu ychwanegol.”²²

Addysg Uwch

42. Mae Adran 9 o'r Bil yn gweithredu polisi Llywodraeth Cymru i ganiatáu rhannu data rhwng Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) a Gweinidogion Cymru, ac unrhyw un y mae Gweinidogion Cymru yn dirprwyo neu'n trosglwyddo swyddogaethau iddo, fel bod y broses o wneud cais am grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr yn symlach ac yn fwy effeithlon.

Rhannu data am grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr

43. O dan y system gyfredol, rhaid i riant neu bartner anfon tystiolaeth o incwm yr aelwyd i'r awdurdod lleol perthnasol, gan amlaf drwy anfon dogfennau gwreiddiol a gaiff eu dychwelyd atynt maes o law.

44. O fis Chwefror 2014, bwriad Llywodraeth Cymru yw bod y system ar gyfer penderfynu:

²¹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 68

²² Memorandwm Esboniadol, paragraff 12

- pwy sy'n gymwys i gael cymorth ariannol;
- yr amodau cymhwyso i gael benthyciadau at gostau byw;
- cyfrifo grantiau; a
- chymorth ychwanegol ar gyfer myfyrwyr anabl a myfyrwyr o deuluoedd incwm isel neu sydd â chyfrifoldebau gofal plant.

yn cael ei throsglwyddo o awdurdodau lleol i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr (SLC)/Cyllid Myfyrwyr Cymru. Bydd angen i Gyllid Myfyrwyr Cymru, felly, sefydlu proses ar gyfer gwirio incwm aelwydydd.

45. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol, bydd y system newydd:

- yn galluogi'r Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr i wirio ffigurau incwm aelwydydd yn electronig gan greu proses ymgeisio fwy effeithlon a fydd yn helpu i leihau nifer y ceisiadau twyllodrus; ac
- mae'r porth rhannu data yn rhan annatod o brosiect i foderneiddio'r gwasanaeth a gynigir gan Gyllid Myfyrwyr Cymru, gan symleiddio'r gwasanaeth hwnnw a'i wneud yn fwy effeithlon.²³

46. O ganlyniad, pan fydd cwsmeriaid Cyllid Myfyrwyr Cymru yn gwneud cais am gyllid myfyrwyr sy'n dibynnu ar brawf modd, bydd incwm yr aelwyd yn cael ei wirio gan ddefnyddio'r wybodaeth sydd gan Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi am incwm noddwyr (rhieni fel arfer) yr ymgeiswyr. Bydd hon yn troi'n broses awtomatig, ac ni fydd yn ofynnol bellach i ymgeiswyr a noddwyr gyflwyno tystiolaeth ar bapur am incwm yr aelwyd.

Darpariaethau eraill

47. Mae Adran 10 yn nodi'r trefniadau cychwyn, mae Adran 11 yn rhoi teitl cryno'r Bil ac mae Atodlen 2 yn cynnwys mân ddiwygiadau a diwygiadau canlyniadol i ddeddfwriaeth arall.

²³ Memorandwm Esboniadol, paragraff 2

4. Egwyddorion cyffredinol a'r angen am deddfwriaeth

Cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i wneud y Bil

48. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol²⁴ mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau yn y Bil yn rhinwedd paragraff 5 (Addysg a hyfforddiant) o Ran 1 o Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.²⁵

49. Mae'r Llywydd wedi penderfynu bod y Bil, yn ei thyb hi, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru a chyhoeddodd ddatganiad i'r perwyl hwn ar 29 Ebrill 2013.²⁶

Ein barn ni

50. *Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi dod i law sy'n awgrymu nad yw'r Bil o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad ac nid oes gennym unrhyw reswm i amau hynny.*

Egwyddorion cyffredinol

51. Mae'r Bil yn ceisio newid y gyfraith am ddau brif reswm:

- Er mwyn rhoi rhagor o annibyniaeth i gyrff Addysg Bellach fel y gall y Swyddfa Ystadegau Gwladol eu hailddosbarthu fel "Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd" (NPISH); ac
- Er mwyn caniatáu i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) rannu data sy'n berthnasol i grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr â Gweinidogion Cymru er mwyn gwneud y broses o wneud cais am grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr yn symlach ac yn fwy effeithlon.

52. Caiff yr ail egwyddor ei thrafod yn fanylach maes o law yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, nid yw'n egwyddor ddadleuol iawn ac rydym yn fodlon ar y cyfan â'r cynigion yn y Bil.

²⁴ Memorandwm Esboniadol – paragraff 4.

²⁵ Deddf Llywodraeth Cymru 2006 c.32

²⁶ Datganiad y Llywydd am Gymhwysedd Deddfwriaethol: Bil Addysg Bellach ac Uwch (Llywodraethu a Gwybodaeth) (Cymru): <http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs.htm?act=dis&id=245736&ds=4/2013>

53. Mae'r egwyddor gyntaf, fodd bynnag, yn fwy dadleuol ac mae cryn anghytuno yn ei chylch ymhlith yr unigolion a sefydliadau a fu'n rhoi tystiolaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r dystiolaeth sydd wedi dod i law wedi bod yn lled-gefnogol neu'n gwbl gefnogol i'r angen am ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae Undebau Llafur sy'n cynrychioli staff sy'n gweithio yn y sector AB yn gwrthwynebu'n chwyn, gydag un ymateb yn awgrymu y byddai gweithredu'r Bil yn arwain at wrthwynebiad o du'r Undebau Llafur a gweithredu diwydiannol o bosibl.²⁷

Y Rheswm am y Newid

54. Mewn perthynas â Sefydliadau Addysg Bellach, dywed y Memorandwm Esboniadol:

“7. Nod y Bil yw newid y fframwaith statudol presennol er mwyn dileu rheolaethau sy'n cael eu harfer gan Weinidogion Cymru dros Sefydliadau Addysg Bellach. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod aeddfedrwydd y sector Addysg Bellach (AB) yng Nghymru ac mae wedi dod i'r casgliad mae'r sector ei hun sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut y dylid diwallu anghenion ei ddysgwyr a'i gymunedau lleol.”

55. Fodd bynnag, mae'n amlwg nad rhagor o annibyniaeth i'r sector yw'r unig reswm na hyd yn oed y prif reswm am y ddeddfwriaeth. Cadarnhawyd hyn sawl gwaith ac yn ddigamsyniol gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ar 19 Mehefin.

“**David Rees:** ... You originally told us that the emphasis, purpose and the main driver of this Bill was the reclassification by the Office for National Statistics. May I clarify whether you would have undertaken these changes without that driver being in place?

Leighton Andrews: No.”²⁸

56. Beth bynnag fo manteision rhoi rhagor o annibyniaeth i'r sector, mae ymatebion eraill o blaid y Bil hefyd yn datgan yn glir bod yr angen

²⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig yr Undeb Prifysgolion a Cholegau (UCU Cymru) (FEHE 4) ymateb i gwestiwn 5 yr ymgynghoriad

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?lId=6772>

²⁸ Trawsgrifiad Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc (PPI) 19 Mehefin, paragraffau 7 ac 8

i wrthdroi dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn rheswm arwyddocaol iawn dros gefnogi'r Bil. Er enghraifft:

“Mae Colegau Cymru yn croesawu darpariaethau'r Bil a fyddai'n gwaredu cyfyngiadau a rheolaethau diangen penodol ar golegau mewn modd a fyddai'n galluogi'r Swyddfa Ystadegau Gwladol i adfer i'r colegau eu statws fel 'sefydliadau nid-er-elw sy'n gwasanaethu aelwydydd' (NPISH). Hwn oedd y statws a fodolai cyn cyhoeddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ym mis Hydref 2010 y dylai colegau AB yn y DU gael eu hystyried yn rhan o'r llywodraeth ganolog.”²⁹

57. Ac mewn tystiolaeth lafar, fe ddywedasant y canlynol:

“**Mr Graystone:**... When the Minister spoke to you, he said that he did not really want to do this, but the ONS, in a sense, has forced his hand. We would take a more positive view that you are doing it because you trust us and believe that we will deliver, but, equally, we know that the real reason is about the ONS classification...”³⁰

58. Roedd gwrthwynebwyr y Bil yn cydnabod mai un o'r prif resymau drosto oedd gwrthdroi dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ond roeddynt yn cwestiynu a oedd hynny'n ddymunol ac a fyddai'n cyflawni ei nod:

“UCU question the need for the Bill, if the main objectives of the Bill are to remove and modify existing legislative controls in order to reverse the ONS classification from Central Government to NPISH.

“UCU have concerns that removing and modifying existing legislative controls, will not be in the best interest of the learners or the wider community.

“The legislation could result in the reversal, but there is a risk that it will not give the ONS Classification Committee the assurances needed to do so. Therefore it is questionable that

²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig Colegau Cymru i'r Pwyllgor (FEHE 1), paragraff 8, tudalen 3

³⁰ Trawsgrifiad PPI 23 Mai 2013, para 51

there is a need for the Bill, if it is not guaranteed that it will achieve what it proposes to do.”³¹

59. Mewn tystiolaeth lafar, a oedd hefyd yn cyfeirio at gyngor a gafodd yr Undeb gan Gwnsler,³² dywedasant wrthym:

“Ms Phelan: Can it be done in another way? The evidence, or the argument—we cannot evidence it, as we do not have a crystal ball—that we want to put forward firmly and strongly is that there is no need for this legislation. That is our view. If you read the counsel’s opinion carefully, you will see that it is saying the same thing. The reality, in her view, is that, if you look at all the various regulations that currently exist and if you look at the current legal status of the institutions, you will see that they can do what they need to do within the current legal framework. You do not need to change it. The idea that you need to change it because of the ONS decision to reclassify as public sector in 2010 is something that she questions...”³³

60. Fodd bynnag, ers rhoi'r dystiolaeth hon, mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi gallu cadarnhau i Lywodraeth Cymru bod y Bil, fel y'i cyflwynir, yn ddigon i ddiddymu'r rheolaethau deddfwriaethol dros Gorfforaethau Addysg Bellach. Felly, cyn belled â bod unrhyw reolaethau anneddfwriaethol eraill sy'n berthnasol i'r sector cyhoeddus yn cael eu diddymu hefyd, a hanfodion y Bil yn parhau fel ag y maent, bydd Corfforaethau Addysg Bellach yn cael eu hailddosbarthu i'r sector preifat fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd.

Ein barn ni

61. *Mae'n amlwg mai'r prif ysgogydd polisi ar gyfer y newidiadau a gynigir yn y Bil yw'r angen tybiedig i wrthdroi penderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol i ddosbarthu'r sector AB yng Nghymru fel rhan o lywodraeth ganolog. Hwyrach fod rhoi rhagor o annibyniaeth i'r sector yn ddymunol ynddo'i hun ond, yn bennaf, modd o sicrhau y gellir gwrthdroi dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yw'r annibyniaeth ychwanegol a roddir gan y Bil.*

62. *Beth bynnag yw rhinweddau gwneud hynny, rydym yn fodlon bod y Bil, fel ag y mae wedi ei ddrafftio, yn caniatáu i'r Swyddfa Ystadegau*

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig UCU (FEHE) - ymateb i gwestiwn 1 yr ymgynghoriad.

³² Ibid - Atodiad 1

³³ Trawsgrifiad PPI 5 Mehefin 2013 – para 24

Gwladol aildosbarthu'r sector AB yng Nghymru fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd.

Canlyniadau dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol

63. Nid yw dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ohono'i hun yn newid trefniadau Llywodraethu a chyfrifyddu Sefydliadau Addysg Bellach mewn unrhyw ffordd. Fodd bynnag, mae eu dosbarthu fel rhan o lywodraeth ganolog yn cael sawl effaith, yn enwedig y ffaith y bydd ariannu cyrff AB yn ddarostyngedig i reolau cyllidebu ac ystadegau ariannol Llywodraeth y DU.

Rheolau Cyfrifyddiaeth

64. Roedd nodyn briffio Llywodraeth Cymru i Bwyllgor Cyllid y Cynulliad yn ei egluro fel a ganlyn:

“Rheolau cyfrifyddiaeth

2. Caiff Cyfrifon Gwladol y DU eu paratoi yn unol â chanllawiau a rheolau y cytunwyd arnynt ar lefel ryngwladol sydd wedi'i hamlinellu'n bennaf yn System Cyfrifon Ewropeaidd 1995 (ESA 95), a'r llawlyfr ategol 'Manual on Government Deficit and Debt (MGDD)'.

3. Mae'r rheolau hyn yn berthnasol i bob gwlad yn yr Undeb Ewropeaidd, ac mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r DU baratoi'r Cyfrifon Gwladol yn unol ag ESA 95.

4. Yn y DU, y Swyddfa Ystadegau Gwladol sy'n gyfrifol am gymhwyso a dehongli'r rheolau hyn.

5. Mae Llywodraeth y DU wedi dewis seilio ei rheolau cyllidebu ariannol a'i hystadegau cyllid ar egwyddorion y Cyllidebau Gwladol. O ganlyniad, mae penderfyniadau ar sut i ymdrin â sefydliadau yn y Cyfrifon Gwladol at ddibenion cyllidebu hefyd yn sail ar gyfer pennu ffin y sector cyhoeddus sy'n cael ei ddefnyddio i baratoi Cyfrifon Llywodraeth Gyfan (WGA).

6. Mae penderfyniadau dosbarthu hefyd yn cael eu bwydo i ystod eang o ystadegau economaidd y Swyddfa Ystadegau Gwladol – y Cyfrifon Gwladol eu hunain, cyflogaeth yn y sector cyhoeddus, etc.

7. Os penderfynir bod sefydliad yn rhan o'r Cyfrifon Gwladol, caiff ei holl drafodion eu cynnwys yng nghyllideb adran berthnasol y Llywodraeth."³⁴

Goblygiadau ar gyfer cyllidebau Llywodraeth Cymru

65. Nodir goblygiadau hyn i drefniadau cyllidebu Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Bellach yn fanwl yn yr un nodyn briffio³⁵ ac mae gwybodaeth debyg wedi ei chynnwys yn yr asesiad effaith rheoleiddiol sy'n rhan o'r Memorandwm Esboniadol. Gellir crynhoi'r prif effeithiau negyddol ar gyllidebau Llywodraeth Cymru fel a ganlyn:

- Cyllidebau cyfalaf - Mae grantiau cyfalaf o Lywodraeth Cymru i Gorfforaethau Addysg Bellach yn cael eu talu ar gyfradd o 50% fel rheol. Fodd bynnag, yn y dyfodol, byddai cyfanswm cost cyfalaf prosiectau yn cyfrif yn erbyn cyllideb gyfalaf Llywodraeth Cymru ar sail 100% o'r costau. Mae Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y byddai hyn yn golygu bod cyfartaledd o £20 miliwn yn llai ar gael yng nghyllideb gyfalaf yr AdAS bob blwyddyn;
- Cyllidebau nad ydynt yn arian parod - Byddai unrhyw ddibrisiant yn asedau'r sector AB yn cyfrif yn erbyn cyllidebau nad ydynt yn arian parod Llywodraeth Cymru sydd oddeutu £22 miliwn y flwyddyn;
- Cyllidebau gwariant a reolir yn flynyddol - Byddai unrhyw newid yn niffygion cynlluniau pensiwn flwyddyn ar ôl blwyddyn yn cyfrif yn erbyn cyllidebau gwariant a reolir yn flynyddol a byddai angen i gyllideb yr AdAS dalu amdanynt yn y lle cyntaf. Byddai'r swm yn amrywio ond mae wedi bod rhwng £3.6 miliwn ac £8.0 miliwn yn y blynyddoedd diwethaf;
- Cyllidebau bron yn arian parod - Ar gyfartaledd, daw 21% o incwm Sefydliadau Addysg Bellach, fel ffioedd myfyrwyr a mentrau masnachol, o ffynonellau eraill heblaw Llywodraeth Cymru. Goblygiadau hyn yw y byddai unrhyw arian dros ben sydd gan Sefydliadau Addysg Bellach yn arwain at danwario yng nghyllideb yr AdAS a byddai diffygion Sefydliadau Addysg

³⁴ Y Pwyllgor Cyllid: 12 Mehefin 2013, papur FIN(4)-10-13 Papur 3 - Ymateb Llywodraeth Cymru - Sgiliau Addysg Bellach ac Uwch:
<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/ieListDocuments.aspx?CId=229&MId=1692&Ver=4>

³⁵ ibid

Bellach yn arwain at orwario yng nghyllideb yr AdAS. Byddai hyn wedyn yn arwain at drafferthion wrth gronni a rheoli arian dros ben i greu cronfeydd wrth gefn.

Goblygiadau ar gyfer cyllidebau Sefydliadau Addysg Bellach

66. Y brif effaith ar gyfer y sector AB fyddai colli tua £20 miliwn o wariant cyfalaf pe bai cost lawn gwariant cyfalaf yn cyfrif yn erbyn cyllidebau Llywodraethau Cymru.

67. Ar hyn o bryd, daw tua 21% o incwm y sector o ffynonellau heblaw cyllid Llywodraeth Cymru. Er y gallent barhau i gynhyrchu'r incwm hwn, ni fyddai ganddynt mwyach yr hyblygrwydd i benderfynu sut i'w wario. Yn arbennig, byddai'n rhaid gwario unrhyw arian dros ben cyn diwedd y flwyddyn ariannol, a gallai hynny olygu nad yw arian yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol.

68. Byddai effaith hefyd ar gostau staff yn Llywodraeth Cymru a Sefydliadau Addysg Bellach wrth baratoi a symud i drefniadau cyfrifyddu newydd.

Canlyniadau Eraill

69. Mae gwrthwynebwyr y Bil wedi dadlau y gallai'r Bil gael nifer o ganlyniadau eraill sydd heb eu hystyried yn llawn. Yn arbennig, mae pryder mai 'preifateiddio' y sector AB yw hyn i bob pwrpas.

70. Dywedodd yr UCU wrthym mewn tystiolaeth ysgrifenedig:

“12. UCU Wales are fundamentally opposed to the proposal to enhance the autonomy and decision making abilities of Further Education Institutions (FEIs) in Wales and believe that the consequences of this bill have not been fully considered by the Welsh Government, nor will it be if the procedure chosen to introduce the legislation remains the same. In our opinion, should the proposal become legislation, we will see the slow privatisation of post 16 educational provision in Wales. It will not produce wholesale change overnight, but it will allow Principals to ‘privatise’ any part of the service. The consequences of which are likely to lead to a profit driven/target lead culture, focussed on ‘value for money’, which is not conducive to fostering quality education that puts

the needs of students and the community at its heart, which from our perspective, is the key mission of Further Education.”³⁶

71. Gwrthodwyd y ddadl hon gan ColegauCymru yn eu tystiolaeth ysgrifenedig:

“36. Roedd sawl ymateb i’r Papur Gwyn yn mynegi pryder y byddai’r colegau AB a’u graddau newydd o ryddid yn anwybyddu’r polisiau a osodir gan Lywodraeth Cymru ym maes addysg bellach; yn anwybyddu cytundebau cenedlaethol ar gyflogau; yn gwerthu asedau cyhoeddus; neu hyd yn oed yn dewis preifateiddio eu hunain fel, yr honnir, sy’n digwydd yn Lloegr, ac yn canolbwyntio ar elw yn hytrach na dysgwyr a’u cymunedau. Gall ColegauCymru roi sicrwydd clir na fydd yr un o’r rhain yn digwydd.

37. Bydd ColegauCymru yn datblygu ei berthynas â Llywodraeth Cymru ymhellach. Rydym yn cydnabod bod llywodraeth etholedig yn disgwyl i’w pholisiau addysgol gael eu gweithredu. Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i osod amodau ynghlwm wrth y cyllid y bydd yn ei roi i’r colegau a bydd memorandwm ariannol diwygiedig.”

72. Dywedodd y Gweinidog ar y pryd wrthym:

“**Leighton Andrews:** They [FEIs] already have the power to create private companies, and have done so. In respect of the controls on borrowing, any lender to a further education institution, as with any lender to any other institution, will have clear conditions for the terms on which that capital is borrowed. They will have to operate within that. We have seen the further education sector mature over time and develop, and we have seen the focus that it has given. Clearly, the mission of further education institutions is to provide learning for students. Any move away from that would give rise to concerns that would be expressed to us. I do not think that we anticipate this causing any major problems.”³⁷

73. Mewn perthynas â mesurau i ddiogelu'r defnydd o arian cyhoeddus, aeth ymlaen i esbonio:

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig UCU (FEHE), tudalen 3, paragraff 12:

³⁷ Trawsgrifiad PPI 15 Mai, paragraff 25

“The issue is whether or not we have safeguards for public finance. Clearly, we have safeguards for public finance, which are built in through the conditions of grant. I think that you need to bear in mind, of course, that there will continue to be financial monitoring of institutions. They will have to satisfy audit requirements, and they will have to publish annual reports and so on. I do not think, frankly, that there is anything here that creates conditions that gives rise to concerns for us.”³⁸

Ein barn ni

74. Rydym yn derbyn y bydd y canlyniadau ariannol ar gyfer cyllidebau Llywodraeth Cymru a'r sector AB yn fras fel y'u disgrifir gan Lywodraeth Cymru, oni chymerir camau lliniaru. Rydym yn derbyn bod y canlyniadau hyn yn sylweddol ac yn annymunol, y dylid cymryd camau lliniaru a bod y Bil fel y'i cyflwynir yn un ffordd o roi'r camau lliniaru hyn ar waith, er y byddem wedi hoffi gweld mwy o wybodaeth am risgiau'r dull hwn yn y Memorandwm Esboniadol.

Argymhelliad 1: Rydym yn argymhell y dylid llunio Memorandwm Esboniadol diwygiedig yn nodi'n fanylach ac yn fwy eglur y risgiau sy'n gysylltiedig â dull y Bil o liniaru effeithiau dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Argymhelliad 2: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn adolygu'n drylwyr effeithiau'r Bil yn ymarferol ac a yw'r effeithiau hyn yn dylanwadu ar rannau eraill o'i rhaglen ddeddfwriaethol neu ar faterion ehangach fel y ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg ac Anghenion Dysgu Ychwanegol.

75. Rydym hefyd yn derbyn fod y Bil yn parhau â'r sefyllfa fel y mae ar y cyfan (cyn yr ailddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol) mewn perthynas â threfniadau cyllidebu ac nid yw'n newid mewn unrhyw ffordd sylfaenol y rhyddid a fu gan gyrff AB erioed i fenthyca, creu is-gyrff, cynhyrchu incwm o ffynonellau eraill ac ymrwymo i gydgytundebau â'u staff.

³⁸ Ibid, paragraff 30

76. *Er hynny, ni chredwn mai'r Bil yw'r unig ddull y gellid bod wedi ei ddefnyddio. Nid ydym ychwaith wedi ein hargyhoeddi bod dulliau eraill wedi cael eu hystyried yn llawn, os o gwbl. Rydym yn bwrw golwg ar ddull gweithredu arall isod.*

Dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol: Y Sefyllfa yn yr Alban

77. Nid yw'r sefyllfa sy'n wynebu cyrff AB yng Nghymru yn unigryw. Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi gwneud penderfyniadau dosbarthu tebyg ar gyfer sector AB Gogledd Iwerddon, Lloegr a'r Alban.

78. Deallwn nad yw Llywodraeth Gogledd Iwerddon wedi llunio ymateb terfynol i'r penderfyniad dosbarthu hyd yma.³⁹

79. Yn Lloegr, mae Llywodraeth y DU wedi gweithredu mewn modd tebyg iawn i'r hyn a gynigir yn y Bil hwn. Roedd Deddf Addysg 2011⁴⁰ yn gwneud yr un newidiadau i bob pwrpas i drefniadau llywodraethu cyrff AB yn Lloegr â'r newidiadau sy'n cael eu cynnig yng Nghymru yn awr.

80. Mae Llywodraeth yr Alban wedi ymateb mewn ffordd wahanol iawn. Mae wedi penderfynu na fydd yn ceisio penderfyniad aiddosbarthu gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Yn hytrach, bydd yn ceisio lliniaru effeithiau'r penderfyniad dosbarthu mewn ffyrdd eraill. Maent yn cynnwys cysylltu â Thrysorlys EM i wneud cais i lacio rhai o reolau cyllidebu'r llywodraeth fel nad oes angen newidiadau deddfwriaethol tebyg i'r rhai yn y Bil.

81. Esboniwyd y dull gweithredu hwn mewn gohebiaeth⁴¹ rhwng Cadeirydd y Pwyllgor a Michael Russell MSP, Ysgrifennydd Addysg a Dysgu Gydol Oes Cabinet Llywodraeth yr Alban. Yn ei lythyr dyddiedig 26 Mehefin⁴² amlinellodd Mr Russell sut y mae'r Alban yn bwriadu mynd i'r afael â hyn:

“We cannot support any suggestion that accounting rules, such as those proposed through ONS' decision, should determine

³⁹ Gweler trawsgrifiad y Pwyllgor 15 Mai (para 110), 23 Mai (para 87) a 5 Mehefin (para 248)

⁴⁰ Deddf Addysg 2011 c.11

⁴¹ PPI(4)-20-13(tud.2) - 20 Mehefin 2013:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=7266>

⁴² PPI(4)-20-13(tud.3) - 26 Mehefin 2013

our policy, or that democratic accountability should be sacrificed as a result of that decision.

“Since 2010, the Scottish Government has been engaged in an extensive period of negotiation with HM Treasury on the basis for ONS' decision, the timing of implementation and the scope for mitigating the implications. While we continue to believe it is within power of HM Treasury to mitigate this decision, it has regrettably chosen not to do so. We continue to disagree with the HMT position. Indeed, we now believe there could be an inconsistency in the treatment of Scottish colleges and continue to press this point with HMT.

“In taking its position, HM Treasury has sought to use the distinctive nature of our response as a means to avoid fully reflecting the budgetary impact of ONS' decision in Scotland. I would therefore welcome the development of a joint approach with other devolved administrations to HM Treasury in pursuit of fairness, parity and increased flexibility. I believe there is much to be gained and learned from a shared approach on this issue.”

Safbwynt y Trysorlys

82. Pan ofynnodd y Pwyllgor i Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, a oedd wedi cysylltu â'r Trysorlys, neu wedi ystyried cysylltu ar y cyd â'r Alban, dywedodd wrthym:

Leighton Andrews: I am always open to having a chat with Mike Russell in Scotland, but we are very clear as to what the answer from the Treasury would be; the rules are very clear. We discussed this in the Finance Committee last week, as you will recall, Chair. I do not think that anything is going to be changed by a conversation with Treasury. We are very clear about that. I do not think that it is any surprise to this committee if I say that Scotland is funded in such a way that it has slightly more flexibility in these matters than we do.”⁴³

83. Pan ofynnwyd iddo gadarnhau a oedd wedi cysylltu â'r Trysorlys, dywedodd wrthym:

⁴³ Trawsgrifiad 19 Mehefin – para 60

“I have not and I have no intention of doing so.”⁴⁴

84. O'i holi ymhellach a fyddai'r Trysorlys yn barod i adael Corfforaethau Addysg Bellach i drosglwyddo rhagor o gronfeydd wrth gefn o un flwyddyn ariannol i'r llall er mwyn iddynt allu datblygu cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiadau'r dyfodol, dywedodd:

“I think that we know what the answer from the Treasury would be. I think that Scotland probably knows what the answer would be as well.”⁴⁵

85. Aethom ati hefyd i ysgrifennu⁴⁶ at Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau Newydd, i ofyn iddo a fyddai'n ystyried y cynnig i gysylltu â'r Trysorlys ar y cyd â'r gweinidog cyfatebol yn Llywodraeth yr Alban. Yn ei ymateb⁴⁷ dywedodd wrthym:

“...To my mind, the content of the letter supports my predecessor’s views on Treasury rules. In particular, Scotland have been engaged in an ‘extensive period of negotiation with HM Treasury on the basis of ONS’ decision’, but that Treasury has chosen not to ‘mitigate’ its decision to not give extra budget cover to FEIs.

...

“In terms of a joint approach with other devolved administrations to HM Treasury, I do not consider this to be a viable option for two reasons. First, we have carefully considered the relevant Treasury guidance but note that the circumstances of re-classification by the ONS would not trigger a right to compensation for the Welsh Government. This is because the reclassification has arisen from a re-assessment of the existing position rather than any change of circumstances. In effect, the ONS position is that FEIs should always have been classed as General Government and therefore as part of the public sector.

...

⁴⁴ Ibid – para 62

⁴⁵ Ibid – para 64

⁴⁶ PPI(4)-20-13(tud.4) - 27 Mehefin 2013

⁴⁷ PPI(4)-20-13(tud.5) - 2 Gorffennaf 2013

Second, a joint approach from the devolved administrations would be an extensive exercise with no guarantee of a successful outcome.”

Ein barn ni

86. *Mae'n amlwg o lythyr Mr Russell fod y newidiadau cyfrifyddu sydd eu hangen o ganlyniad i benderfyniad dosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yr un mor gymwys i Lywodraeth yr Alban ac i gyrff AB yn yr Alban, a bod llawer o'r effeithiau'n debyg iawn.*

87. *Nid ydym wedi cael digon o amser i bwyso a mesur ai dull yr Alban yw'r un mwyaf priodol i amgylchiadau Cymru. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi symud ymlaen cryn dipyn ar lwybr polisi gwahanol, fel y nodir yn y Bil. Os yw dull yr Alban yn briodol i Gymru, mae'n bosibl ei bod yn rhy hwyr i fynd ar drywydd hynny yn yr amser sy'n weddill.*

88. *Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod y Trysorlys yn annhebygol o ymateb yn gadarnhaol i unrhyw gynnig. Rydym yn pryderu bod cyfeiriad polisi Llywodraeth Cymru fel pe bai'n seiliedig ar ragdybiaeth ynglŷn ag ymateb y Trysorlys sydd heb ei brofi. Nid yw Llywodraeth Cymru wedi ysgrifennu i'r Trysorlys i gael cadarnhad o'u barn, nac wedi ceisio cynnal trafodaeth â nhw. Byddem yn disgwyl i'r polisi fod wedi'i seilio ar sefydlu safbwynt y Trysorlys yn ffurfiol.*

89. *Gwnaeth y Gweinidog blaenorol ddatgan yn blwmp ac yn blaen na fyddai wedi gweithredu fel ag y gwnaeth i ddwyn y Bil hwn ymlaen oni bai am ddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Felly, mae polisi'n cael ei lywio'n bennaf gan reolau cyfrifyddu i bob pwrpas. Nid yw hyn yn dweud na fyddai rhagor o annibyniaeth yn beth da i'r sector AB yng Nghymru, nac nad oes ganddo'r gallu i arfer yr annibyniaeth honno'n gyfrifol.*

90. *Teimlwn yn anghyfforddus yn cytuno i'r annibyniaeth ychwanegol honno pan nad yw'r opsiwn o gadw atebolrwydd uniongyrchol wedi ei drafod yn llawn gyda'r Trysorlys.*

Argymhelliad 3: Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth Cymru, cyn y drafodaeth ar yr egwyddorion cyffredinol, drafod yn llawn â Thrysorlys EM y posibilrwydd o addasu rheolau cyfrifyddu'r Llywodraeth i helpu i liniaru effeithiau dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

5. Pwerau ymyrryd a chyfeirio Llywodraeth Cymru

91. Mae llacio pwerau ymyrryd a chyfeirio deddfwriaethol Llywodraeth Cymru yn nodwedd allweddol o'r Bil. Fodd bynnag, yn y Memorandwm Esboniadol, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i sicrhau cydbwysedd rhwng y newidiadau a gynigir yn y Bil â'r angen i ddiogelu cronfeydd cyhoeddus, buddiannau cyhoeddus a diogelu dysgwyr. Yn eu hymateb i'r Ymgynghoriad Papur Gwyn, dywedodd Estyn:

“The changes proposed in the White Paper may give colleges more freedom to pursue these agendas, but it is important that the FE sector is held to account for its delivery of the education and training, economic and social priorities of the Welsh Government.”⁴⁸

92. Dywedodd Leighton Andrews wrth y Pwyllgor ei fod yn hyderus y byddai'n gallu dylanwadu ar Sefydliadau Addysg Bellach â mwy o annibyniaeth drwy ffyrdd anneddfwriaethol, er enghraifft, drwy amodau cyllido fel rhan o'r gyfundrefn cyllido ôl-16 newydd, “enwi a chodi cywilydd”; drwy'r Fframwaith Ansawdd ac Effeithlonrwydd; gofynion archwilio a chyfrifyddu a drwy arolygiadau Estyn.

Newidiadau i'r Memorandwm Ariannol a'r amodau cyllid grant

93. Cawsom gyfarwyddyd technegol preifat gan swyddogion y Swyddfa Ystadegau Gwladol am gefndir eu dosbarthiad a'r ffactorau a fyddai'n bwysig iddynt wrth benderfynu ailddosbarthu cyrff AB fel NPISH. Fel rhan o'r cyfarwyddyd hwn, cadarnhaodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod y Bil, fel y mae'n sefyll, yn ddigonol i ddiddymu rheolaethau deddfwriaethol dros Golegau Addysg Bellach, **ac felly, cyhyd â bod unrhyw reolaethau sector cyhoeddus anneddfwriaethol eraill yn cael eu diddymu**, bydd Colegau Addysg Bellach yn cael eu hailddosbarthu i'r sector preifat fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd.

94. Mewn ymateb i gwestiwn gan Aelod, dywedodd Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ar y pryd, a Mr Andrew Clarke, un o'i swyddogion:

⁴⁸ Llywodraeth Cymru, Ymatebion i'r Ymgynghoriad Rhan 1 Bil Addysg Bellach ac Uwch (Cymru), 2012, tud 189 [fel ar 30 Mai 2013]

“Leighton Andrews: We are clear that there are changes that we would need to institute in terms of the financial memorandum. We discussed this with the Finance Committee last week, if I remember rightly. Andrew, have we specifically talked through the controls with the ONS?”

“Mr Clark: We have shared our existing controls with the ONS, and there are one or two places where it has indicated that they would need to be changed.”⁴⁹

95. Yna, cytunodd y Gweinidog i rannu manylion y newidiadau hyn gydag Aelodau’r Pwyllgor.

Ailsefydlu cyngor cyllido?

96. Mae Opsiwn 2 yr Aseiad Effaith Rheoleiddiol yn cynnig ailsefydlu cyngor cyllido yng Nghymru. Mae’r Undeb Prifysgol a Choleg o blaid yr opsiwn hwn. Fodd bynnag, roedd Leighton Andrews yn bendant iawn yn ei dystiolaeth lafar i’r Pwyllgor nad oedd yn ystyried hyn:

“Leighton Andrews: I do not think our view was that we needed a funding council. To our mind, there has been considerable consolidation within the further education sector over recent years. We have a small number of FE colleges now and our officials have established strong working relationships with those institutions. They know the people and there are direct lines of contact. It seems unnecessary to us to establish a new bureaucratic layer between further education institutions and the department.”⁵⁰

97. Ac yn ddiweddarach:

“I just do not think that there is a need for it. In 2004 to 2006, we went down the route of significantly reducing the number of quangos in Wales and it is not my policy objective to bring back more quangos.”⁵¹

⁴⁹ Trawsgrifiad PPI 19 Mehefin, paragraffau 10 ac 11

⁵⁰ Trawsgrifiad PPI 15 Mai, paragraff 13

⁵¹ Ibid, paragraff 18

Ein barn ni

98. Ar sail y rhagdybiaeth bod angen i'r Bil Iacio'r rheolaethau deddfwriaethol dros y Sefydliadau Addysg Bellach er mwyn sicrhau bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ailddosbarthu, rydym yn gymharol fodlon bod y Gweinidog yn cynnal lefel briodol o reolaethau anneddfwriaethol sy'n cael eu cydbwysu â'r angen i beidio â pheryglu proses ailddosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

6. Y goblygiadau i ddysgwyr, cymunedau a staff AB

Cyflwyniad

99. Fel y pwysleisiwyd eisoes, nid ydym yn gyfforddus yn cytuno i ragor o annibyniaeth ar gyfer cyrff AB pan ymddengys nad yw'r opsiwn o gadw atebolrwydd uniongyrchol wedi cael ei bwysu a'i fesur yn drylwyr. Fodd bynnag, rydym yn derbyn bod goblygiadau ariannol dosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn sylweddol ac yn annymunol.

100. Os gellir dangos na fydd y Trysorlys yn cytuno i gymryd camau i liniaru'r goblygiadau hyn, mae'n anodd cyfiawnhau cadw'r fframwaith deddfwriaethol cyfredol a derbyn yr effaith ariannol negyddol sy'n gysylltiedig â'r fframwaith hwnnw. O dan yr amgylchiadau hyn, efallai mai deddfu, fel y nodir yn y Bil, fyddai'r unig ffordd o osgoi'r goblygiadau ariannol sy'n deillio o benderfyniad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

101. Mae hyn yn achosi tipyn o benbleth. Yn dilyn y cyfarwyddyd technegol preifat a gafwyd gan swyddogion y Swyddfa Ystadegau Gwladol, rydym, yn fodlon y bydd y Bil fel y'i cyflwynir yn caniatáu i'r Swyddfa Ystadegau Gwladol ailddosbarthu cyrff AB yng Nghymru fel Sefydliadau Di-elw sy'n Gwasanaethu Aelwydydd. Fodd bynnag, mae hefyd yn glir y gallai gwella'r Bil mewn ffordd sy'n ailgyflwyno rheolaethau allweddol dros y sector beryglu'r broses o aildosbarthu.

102. Fodd bynnag, mae nifer o awgrymiadau penodol wedi'u cyflwyno i ni wrth ystyried y Bil nad ydynt fel petaent yn peryglu proses aildosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Offerynnau ac erthyglau llywodraethu

103. Bydd corfforaethau AB yn gallu amrywio eu hofferynnau ac erthyglau llywodraethu, ond mae Atodlen 1 i'r Bil yn nodi gofynion penodol y mae'n rhaid cydymffurfio â hwy bob amser.

104. Mae'r gofynion hyn yn cynnwys:

- bod yn rhaid i aelodau'r corff llywodraethu gynnwys staff a myfyrwyr yn y sefydliad;⁵² a
- chyhoeddi trefniadau ar gyfer cael barn staff a myfyrwyr.⁵³

Staff a Chynrychiolwyr Dysgwyr

105. Mae pryderon wedi'u mynegi nad yw aelodau staff cyrff llywodraethu o bosibl yn cynrychioli buddiannau staff yn ddigonol. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd yr Undeb Prifysgol a Choleg wrthym:

“Ms Phelan: If you look at paragraph 3 of Schedule 1, which talks about the eligibility of persons for membership, you will see that it is six sentences long. It says that regulations must make sure that staff and students at an institution are a part of its governance. It does not say how the staff and students will be put on the board of governors. It does not say that they will be elected. It does not say how many. There are circumstances where we have found that the chief executive has chosen the staff member to sit on the board, which is totally inappropriate, because the purpose of the board of governors is to scrutinise, and when you do not have appropriate scrutiny, that is when you have problems. One of the things that we will be looking at is persuading some of our colleagues to table amendments to that part of the Bill, because it is not tight enough. If we have to have it, we have to do some work on it.”⁵⁴

106. Roedd Colegau Cymru hefyd o blaid yr egwyddor o ethol cynrychiolwyr staff, er eu bod yn bryderus y gallai gofyniad o'r fath effeithio ar broses ailddosbarthu'r Swyddfa Ystadegau Gwladol:

“Mr Graystone: Over 20 years, we have become used to having elected staff and elected students and we agree with that entirely. We are not sure about whether the Office for National Statistics would see the word ‘elected’ as affecting the relationship between the Government and colleges. We will give a commitment that staff and students will be elected, but you would need to get advice from the ONS to see whether that relationship would be affected. That is the way that we work

⁵² Paragraff 3 o Atodlen 1 o'r Bil

⁵³ Paragraff 6 o Atodlen 1 o'r Bil

⁵⁴ Trawsgrifiad PPI 5 Mehefin, paragraff 74

and we do not think that hand-picking staff or students is the way forward...”⁵⁵

107. Dywedodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr wrthym yn eu hymateb ysgrifenedig:

“We feel very strongly that, as students are perhaps the single most important stakeholder in our FEIs, there should be at least two reserved places for students. This would avoid a possible repetition of situations in England where, following the Education Act 2011, some FE colleges did not maintain two student governor places. Considering the great emphasis that has been placed on learner voice in Wales recently, including the NUS Wales’ Welsh Government-funded FE Project and the Learner Voice Survey, to not secure student representation on the body would be a retrograde step.”⁵⁶

108. Ymhelaethwyd ar hyn mewn tystiolaeth lafar ganddynt gan egluro y byddent hefyd yn hoffi gweld cynrychiolwyr myfyrwyr yn cael eu hethol:

“**Mr Rees:** ...In terms of the word ‘elected’, we would like to see it mentioned in the Schedule that the student places should be elected. Currently, this is the case through the instruments and articles, but of course if FEIs have the ability to modify the instruments and articles, this could be altered.

“Normally, it will be the students’ union president who sits on the governing body, but it is worth bearing in mind that, currently, not all further education institutions have a students’ union president. We consider that good practice, and the reason that we advocate the two governing places is that you have that role, but you also have another role to perhaps complement the skills and expertise that the president brings.”⁵⁷

109. Dywedodd y Gweinidog ar y pryd y byddai’n fodlon cefnogi gwelliannau a fyddai’n nodi y dylai o leiaf ddau aelod o gorff llywodraethu fod yn fyfyrwyr:

⁵⁵ Trawsgrifiad PPI 23 Mai, paragraff 108

⁵⁶ Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (FEHE 10) ymateb ysgrifenedig i gwestiwn 3, tudalen 3

⁵⁷ Trawsgrifiad PPI 5 Mehefin, paragraffau 184 ac 185

“Leighton Andrews: That is what we have demonstrated that we support. I am willing to consider any amendments that do not undermine the purpose of the Bill in respect of the ONS reclassification.”⁵⁸

110. Dywedodd hefyd y byddai'n fodlon derbyn gwelliannau i sicrhau bod cynrychiolwyr myfyrwyr a staff yn cael eu hethol.⁵⁹

Argymhelliad 4: Rydym yn argymell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i nodi y dylai o leiaf ddau aelod o gorff llywodraethu coleg fod yn gynrychiolwyr myfyrwyr.

Argymhelliad 5: Rydym yn argymell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i nodi y dylai cynrychiolwyr myfyrwyr ar gorff llywodraethu coleg gael eu hethol gan y corff myfyrwyr.

Argymhelliad 6: Rydym yn argymell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i nodi y dylai dau gynrychiolydd staff ar gorff llywodraethu coleg gael eu hethol yn gynrychiolwyr staff y sefydliad.

Cynrychiolwyr Cyflogwyr a Busnes

111. Dadleuodd Bwrdd Hyfforddi'r Diwydiant Adeiladu (CITB) y dylai'r diwydiant adeiladu gael ei gynrychioli ar gyrff llywodraethu:

“4.1 The Further Education Sector in Wales has traditionally been an important provider of Higher Level Education, mainly at levels 4 and 5 HNC/NHD provision for the Construction Sector. The sector generally has credibility and support amongst employers and has shown a willingness to innovate with the development of Foundation Degrees, Sustainability and Green Skills provision and part time courses.

4.2 In the light of the above comments it must be stated that Construction provision is expensive and that independent control of College Finances could either be a positive or negative factor in the maintenance of current provision or development of additional new provision depending on the interests of Senior Managers and Governors. The need for well

⁵⁸ Trawsgrifiad PPI 19 Mehefin, paragraff 72

⁵⁹ Trawsgrifiad 19 Mehefin para 73 a 74

informed and influential representation from the Construction Industry on the new revised Governing Bodies of Colleges would be crucial to this success of reform and to ensure that ‘expensive’ specialist provision continues and thrives.”⁶⁰

112. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth lafar derbyniwyd nad oedd hyn yn ymarferol bob amser a bod cynrychiolaeth fusnes mwy cyffredinol yn ddull mwy realistig:

“[26] **Mr Williams:** I agree with you. It would be impractical to have everybody around the table in agreement, but a mechanism needs to be set up. It is important to have business representation, which could be from any sector. If you have business representation, I suppose that it gives different points of view on some of the decisions that have to be made. With any business or sector, if the correct person is there, I would say that it is going to be beneficial. In addition to that, you have to have sector input, so that the decisions that are made, curriculum-wise and provision-wise, are the right ones.”

113. Roedd Colegau Cymru hefyd yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys busnesau:

“**Mr Graystone:** ... I do not think that any college has consulted employers because it has been told to do so by the Welsh Government; we just do it as part of our core business. You cannot run colleges if you do not consult with your learners and employers, if you do not have employers on boards, if advisory committees are not set up, and if meetings are not held for employers. It is core business for us. I think that most of us did not realise that we were required to do so; we just do it. It runs in the blood.”⁶¹

Argymhelliad 7: Rydym yn argymhell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i nodi y dylai cyrff llywodraethu gynnwys cynrychiolwyr cyflogwyr neu fusnesau lleol.

⁶⁰ Ymateb ysgrifenedig CITB i'r ymgynghoriad (FEHE 18)

⁶¹ Trawsgrifiad PPI 23 Mai, paragraff 106

Dyletswydd i ymgynghori â dysgwyr a chyflogwyr lleol

114. Mae'r Bil yn diddymu'r ddyletswydd gyfredol ar Sefydliadau Addysg Bellach i ymgynghori â dysgwyr a chyflogwyr. Fel y noda ColegauCymru uchod (heb dderbyn bod angen dyletswydd i ymgynghori), ystyrir ymgynghori â chyflogwyr a busnesau lleol yn rhan ganolog o ymgysylltiad colegau â'r gymuned.

115. Mynegodd rhai tystion bryder am ddiddymu'r ddyletswydd. Dywedodd CTIB:

“Mr Williams: We would definitely be concerned about removing the duty. As I say, providing some traditional things is easier than looking ahead to what the world and young people will need in terms of employment. Some will be open to doing that and some will be sufficiently forward-thinking...”⁶²

116. Mynegodd Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr bryder hefyd:

“In terms of the impact upon NUS Wales, we will be working closely with ColegauCymru and FEIs to ensure that learners continue to be consulted, represented and included on governing bodies/ corporations, especially vital when the explanatory memorandum outlines in paragraph 25 that the Bill will ‘repeal...the duty on FEIs to consult with learners and employers’, p. 8, which is, understandably, of great concern to us.”⁶³

117. Mewn tystiolaeth lafar aethant at i ymhelaethu ar hyn gan holi sut y byddai Sefydliadau Addysg Bellach yn cael eu hannog i ymgysylltu wrth gynllunio cwricwlwm lleol pan nad oedd dyletswydd i ymgynghori:

“Mr Rees: We do not represent 14 to 16-year-old learners. Our membership is 16-plus. That said, one area where we have concerns is around the removal of the duty for FE institutions to participate in local curriculum planning. We advocate flexibility in the education system and that you should be able to access the qualifications and training that you require to pursue your career or vocation. The 14-19 networks and the

⁶² Trawsgrifiad PPI 13 Mehefin, paragraff 36

⁶³ Tystiolaeth ysgrifenedig Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (FEHE10) i gwestiwn 4, tudalen 4.

local curriculum plan have been really beneficial. There are some accepted difficulties with local curriculum planning, but generally it has been beneficial in opening up opportunities for young people. We would want to know how FEIs would still be incentivised to engage in this collaboration.”⁶⁴

118. Mynegodd Estyn bryder hefyd y bydd y Bil yn diddymu'r ddyletswydd ar Golegau Addysg Bellach i ymgynghori â dysgwyr a chyflogwyr.⁶⁵

119. Yn ei dystiolaeth lafar gychwynol, dywedodd y Gweinidog ar y pryd mai'r rheswm am ddiddymu'r ddyletswydd yn bennaf oedd i fodloni'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, ond roedd hi'n ymddangos nad oedd ganddo unrhyw wrthwynebiad mewn egwyddor i gynnwys dyletswydd:

“Leighton Andrews: This goes back to the core reason for the Bill, which is the need to produce an outcome that satisfies the ONS. That does not mean that we do not regard consulting with learners and other stakeholders as being good practice; we would encourage that.”⁶⁶

120. Mewn tystiolaeth ddiweddarach, dywedodd y byddai'n derbyn gwelliannau er mwyn sicrhau y dylai cyrff llywodraethu gynnwys cynrychiolydd cyflogwyr lleol ac y dylai hefyd fod yn ddyletswydd arnynt i ymgynghori â dysgwyr a busnesau lleol.

“Leighton Andrews: Again, it would depend on the formulation of any amendment. As I said, I would be willing to consider amendments that did not change the basic aim of the Bill in terms of the ONS reclassification...”⁶⁷

Argymhelliad 8: Rydym yn argymhell y dylid gwella Atodlen 1 i'r Bil i roi dyletswydd gyffredinol ar gyrff llywodraethu i ymgynghori'n rheolaidd â chyflogwyr lleol, dysgwyr a chymunedau ar y ddarpariaeth addysg yn y sefydliad dan sylw a sut y mae hynny'n effeithio ar gynllunio'r cwricwlwm lleol.

⁶⁴ Trawsgrifiad PPI 5 Mehefin, paragraff 260

⁶⁵ Ymateb ysgrifenedig Estyn (FEHE 5); tudalen 2

⁶⁶ Trawsgrifiad PPI 15 Mai, paragraff 133

⁶⁷ Trawsgrifiad PPI 19 Mehefin, paragraff 74

Barn y Swyddfa Ystadegau Gwladol

121. Cawsom gyfarwyddyd technegol preifat defnyddiol a gwybodus iawn gan swyddogion y Swyddfa Ystadegau Gwladol am gefndir eu dosbarthiadau a'r ffactorau a fyddai'n bwysig iddynt wrth benderfynu ailddosbarthu cyrff AB fel NPISH. Cyfarwyddyd preifat oedd hwn ac mae'n bwysig nodi nad oedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gallu rhoi atebion diamod i gwestiynau damcaniaethol. Fodd bynnag, mae ein dealltwriaeth well o'r ffactorau y byddant yn eu hystyried yn ein harwain i ddod i'r casgliad y byddai'r Bil yn annhebygol o effeithio'n sylweddol ar ganlyniad eu penderfyniad i ailddosbarthu, pe bai'n cael ei wella fel yr awgrymir uchod.

Ein barn ni

122. *Rydym yn fodlon bod y gwelliannau a argymhellwyd uchod yn cynrychioli dull cymesur a rhesymol a fydd yn:*

- *Cryfhau cyfranogiad dysgwyr a staff;*
- *Sicrhau bod cyrff llywodraethu'n cael clywed am anghenion busnesau a chyflogwyr;*
- *Sicrhau bod dysgwyr ac aelodau staff yn cael eu cynrychioli'n iawn ar gyrff llywodraethu;*
- *Cryfhau'r ymgysylltiad â dysgwyr, busnesau a'r gymuned leol.*

123. *Rydym hefyd yn fodlon mewn egwyddor na fydd unrhyw welliannau a awgrymwyd i ni, ar wahân neu gyda'i gilydd, yn peryglu ailddosbarthiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol.*

7. Darpariaethau sy'n ymwneud â'r sector addysg uwch

Cyflwyniad

124. Mae adran 7 ac adran 9 o'r Bil yn ymdrin yn benodol â materion sy'n ymwneud ag Addysg Uwch.

125. Mae adran 7 yn diddymu pŵer Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n gwahardd Sefydliadau Addysg Bellach rhag darparu cyrsiau addysg uwch heb gymeradwyaeth Gweinidogion a rheoleiddio niferoedd y categorïau o fyfyrwyr ar y cyfryw gyrsiau.

126. Mae adran 9 yn darparu sail gyfreithiol ar gyfer Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi i gyflenwi gwybodaeth i Weinidogion Cymru ar incwm aelwydydd mewn perthynas â gweithredu'r cynllun benthyciadau i fyfyrwyr. Mae hyn yn sicrhau bod Gweinidogion Cymru yn gydradd yn hyn o beth â'u cymheiriaid yn Llywodraeth y DU ac yng Ngogledd Iwerddon (mae'r trefniadau fymryn yn wahanol yn yr Alban).

Pŵer i reoleiddio Cyrsiau Addysg Uwch ym maes Addysg Bellach

127. Mynegwyd peth pryder am ddiddymu'r pŵer hwn. Dywedodd NASUWT Cymru, Undeb yr Athrawon, yn eu cyflwyniad ysgrifenedig:

“The NASUWT notes the provisions to remove the power of Welsh Ministers to restrict the provision of higher education (HE) courses within the FE sector.

“The NASUWT finds no merit in this proposal as the current power of Welsh Ministers provides an important safeguard to militate against competition and the adverse influence of market forces developing within the FE and HE sectors.

“The NASUWT does not oppose the provision of HE courses within the FE sector as long as those charged with the responsibility for delivering the courses enjoy the same pay and conditions of service as their counterparts in HE.

The NASUWT urges the CYPC to be alert to the fact that this proposal could lead to FE providers attempting to provide HE courses ‘on the cheap’.”⁶⁸

128. Dywedodd CCAUC yn ei gyflwyniad ysgrifenedig:

“We are currently responsible for the provision of tuition fee grant in respect of Welsh domiciled full-time undergraduate students. We have arrangements in place to manage the cost to our resources, and therefore to the Welsh public purse, arising from this responsibility. The proposed removal of controls as identified in the paragraph above could increase our financial exposure and we will wish to work with our colleagues in the Welsh government to explore any implications which arise.”⁶⁹

129. Ni fynegodd Addysg Uwch Cymru (AUC) unrhyw bryder am ddiddymu’r pŵer hwn ond nododd y byddai ystod o reolaethau anneddfwriaethol yn parhau i fod ar waith:

“In future we would expect there to continue to be effective controls in place for all providers of HE (including HEIs, FEIs, and alternative providers) to ensure that Welsh Government budget can be suitably managed and that public funding is used appropriately. We continue to support the current policy that any future expansion of HE in FE would be best achieved through franchise partnerships, for the reasons identified by HEFCW (see above 3.3 [earlier paragraph of HEW written evidence]). In removing the Welsh Government’s powers under the Education Act 2002, we recognise that there is in practice a range of controls on future expansion of HE in FE. As part of the consultation on HE (Wales) Bill consultation, it will be necessary to ensure that appropriate future arrangements for all providers continue to remain in place.”⁷⁰

130. Yn ei dystiolaeth lafar gychwynnol, eglurodd y Gweinidog ar y pryd pam ei fod yn cynnig diddymu’r pŵer:

⁶⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig NASUWT (FEHE 14), paragraff 21

⁶⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig CCAUC (FEHE 16), tudalen 2

⁷⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig AUC, paragraff 3.5

“Leighton Andrews: The power has never been used and we do not anticipate it needing to be used.”⁷¹

131. Ymhelaethodd ar hyn drwy ddweud:

“Leighton Andrews: ...These are policy issues rather than legislative issues. I do not think that the power is needed. There are other ways in which the validation of higher education, and the quality of higher education is safeguarded. Obviously, the Higher Education Funding Council for Wales and the Quality Assurance Agency for Higher Education will have a role in this. As I said, the power has never been used. In the context of future discussions on emerging higher education policies, we will want to look at the way in which there is collaboration between further and higher education institutions. However, I do not see the need for this power explicitly.”⁷²

132. Fodd bynnag, mewn tystiolaeth ddiweddarach clywodd y Gweinidog nad oedd angen ildio'r pŵer ar gyfer aiddosbarthiad gan y Gwasanaeth Ystadegau Gwladol ac er nad oedd wedi'i ddefnyddio erioed, efallai y byddai'n werth ei gadw er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw beth a allai godi ei ben yn y dyfodol. Mewn ymateb, cytunodd i fyfyrion ymhellach ar y sefyllfa cyn cyfnod 2.

“Leighton Andrews: ... You raise an interesting question here about the commonality of regulation of higher education across different institutions. I would rather think about that, in principle, in the general context of our future legislation, because there are other issues that are starting to arise, for example, through the provision of mass online open courses, and other matters that we might want to consider at that point.”⁷³

⁷¹ Trawsgrifiad PPI 15 Mai, paragraff 203

⁷² Ibid, paragraff 209

⁷³ Trawsgrifiad PPI 19 Mehefin

Ac:

“Leighton Andrews: Let me go away and reflect on this, because it is an interesting discussion and we can return to it at Stage 2. I will go away and discuss this with officials.”⁷⁴

Ein barn ni

133. *Ni chredwn ei bod yn ymarfer da i Weinidogion gadw pwerau nad ydynt yn cael eu defnyddio i bob diben a hynny'n syml oherwydd y posibilrwydd y gellid bod eu hangen ar adeg amhenodol yn y dyfodol. Felly, rydym yn gwerthfawrogi'r safiad a gymerwyd gan y Gweinidogion yn yr achos hwn.*

134. *Fodd bynnag, o ystyried y newidiadau posibl yn y sector yn y dyfodol a'i bod yn debygol y bydd Bil Addysg Uwch yn y dyfodol cymharol agos, credwn ei bod yn synhwyrol ailasesu ai nawr yw'r adeg fwyaf priodol i ddiddymu'r pŵer hwn.*

135. *Rydym yn falch bod y Gweinidog blaenorol wedi cytuno i fyfyrwyr ar y mater hwn ymhellach cyn Cyfnod 2 a gobeithio y bydd ei olynydd yn gwneud yr un fath.*

Argymhelliad 9: Rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn ailystyried diddymu adran 139 o Ddeddf Addysg 2002, fel a gynigir yn adran 7 o'r Bil.

Cyflenwi gwybodaeth ynghylch grantiau a benthyciadau i fyfyrwyr

136. Nid ydym wedi cael unrhyw safbwyntiau cadarn neu dystiolaeth rymus yn erbyn y cynnig hwn, yn wir roedd y rhan fwyaf o'r dystiolaeth o'i blaid. Roedd cytundeb eang hefyd mai mater technegol oedd hwn a oedd ei angen i wneud gwelliannau i'r broses o wneud cais am fenthyciadau i fyfyrwyr na fyddai'n cael llawer o effaith fel arall. Eglurwyd hyn fel a ganlyn gan swyddog o Lywodraeth Cymru:

“Ms Martins: ... It is an entirely technical provision; it is kind of a lacuna, although it was policy at the time in the Higher Education Act 2004. There is a mechanism for automatic transfer from the tax office to the Student Loans Company, just for the verification of the information that students supply when they make applications for support. That allows the tax

⁷⁴ Ibid, paragraff 107

office to transfer automatically the information to the Student Loans Company in relation to students in Northern Ireland and England.

“We were left out, so all of our applications had to be done on paper. The students had to provide everything on paper, and then, if we had any doubts—local authorities used to process the applications—they would have to go to the tax office, and the tax office would have to verify that separately. It made the process a lot longer. That is all that this does; this does not ask for any additional information to be provided—

Simon Thomas: It is only the manner of the sharing, not the actual information that is being changed.

Ms Martins: Absolutely. It is the direct sharing of information between HMRC and SLC, which is working for us.”⁷⁵

137. Fodd bynnag, mynegodd UNSAIN Cymru yr amheuon canlynol:

“We understand the need to modernise the Student Finance Wales delivery service but do not welcome the manner in which this is being pursued in the Bill’s proposals. The Student Finance Wales delivery service is in effect being outsourced to the Student Loan Company (which has had a chequered history in its workings in England) with the intention of centralising what is currently a local and responsive service. The danger in the current proposals is that the service will be diminished and that students will suffer in particular those who wish to apply through the medium of Welsh and those with special needs.”⁷⁶

138. Cawsom hefyd ein hysbysu bod y cyfrifoldeb am geisiadau am fenthyciadau i fyfyrwyr yn cael ei drosglwyddo o awdurdodau lleol i’r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, er nad yw hyn yn ddibynnol ar y newidiadau a gynigir yn y Bil. Dywedodd y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr wrthym:

“**Mr Wallace:** My understanding is absolutely that the decision has already been taken and that significant conversations are already taking place between our organisations as we are building the service in Wales around the Transfer of

⁷⁵ Trawsgrifiad PPI 15 Mai, paragraffau 179-182

⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig UNSAIN Cymru (FEHE 7), tudalen 3

Undertakings (Protection of Employment) Regulations 1981 opportunities for local authority staff. So, my understanding is that this is approved and authorised to go ahead. This is a technical section within the Bill to allow us to take advantage of some functionality and process efficiencies that we have developed for England and wish to effectively make available to the Welsh service. However, if this Bill or this particular part of the Bill did not go through, we would still go ahead—

“Mr Wallace: [but] It would be the manual system, so it would have the same costs and inefficiencies that are in the system just now, so we would be denying ourselves the opportunity to take advantage of these benefits.”⁷⁷

139. O ran y cyngor lleol, gan berson, am fenthyciadau i fyfyrwyr y gallai myfyrwyr ei dderbyn yn y dyfodol, dywedodd:

“Mr Wallace: If they are looking for information around the detailed application process for student funding, that is provided through Student Finance Wales. That will either be online or through a large amount of information, advice and guidance that we are going to be creating and producing. As I mentioned earlier, the role of the local authorities will be more of a signposting service to say to people, ‘If you wish to apply for student finance, this is how you do it’, and to direct them to the websites and the existing materials that we have. I do not see that local authorities would have a continuing role. That is my understanding: they would not have a continuing role in the provision of detailed information and would be more likely to be signposting people to the right places.”⁷⁸

Ein barn ni

140. *Rydym yn fodlon mai newid technegol yw hwn sydd ei angen er mwyn sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn gydradd â’u cydweithwyr mewn mannau eraill yn y DU ac er mwyn caniatáu gwelliannau i’r system ar gyfer gwneud cais am fenthyciadau i fyfyrwyr.*

141. *Er nad yw hyn yn uniongyrchol gysylltiedig â’r cynigion yn y Bil, rydym yn bryderus y gallai canoli cyfrifoldeb am fenthyciadau i*

⁷⁷ Trawsgrifiad PPI 23 Mai, paragraffau 187 ac 189

⁷⁸ Ibid, paragraff 199

fyfyrwyr gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr arwain at wasanaeth mwy anghysbell a llai ymatebol na'r gwasanaeth a ddarperir ar hyn o bryd gan awdurdodau lleol. Credwn fod angen meddwl mwy am ba mor briodol yw cymorth gan berson, gan gynnwys yn y Gymraeg ac ar gyfer y rhai ag anghenion ychwanegol, er mwyn gallu parhau i'w ddarparu ar lefel leol.

Argymhelliad 10: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried gyda'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr beth yw'r ffordd orau o fynd ati i gadw cymorth gan berson i'r rhai sy'n gwneud cais am fenthyciadau i fyfyrwyr ar lefel leol.

8. Effeithiau ar grwpiau penodol

142. Rydym wedi derbyn sylwadau am effaith y Bil ar grwpiau defnyddwyr penodol.

Y Gymraeg

143. Rydym eisoes wedi crybwyll yr angen i ddarparu gwasanaeth lleol ymatebol yn y Gymraeg ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am Fenthyciadau i Fyfirwyr. Gofynnodd UCAC yn benodol a fyddai cyrff AB yn parhau i orfod cydymffurfio â darpariaethau Mesur y Gymraeg 2011:⁷⁹

“Polisiau Iaith: Petai'r colegau addysg bellach yn cael eu trosglwyddo i gategori NPISH, a fyddent yn ddarostyngedig i'r Safonau Iaith arfaethedig? I bwy fyddent yn atebol o ran gwireddu ymrwymadau eu Polisiau Iaith Gymraeg?”⁸⁰

144. Fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog ar y pryd:

“**Leighton Andrews:** I do not think anything has changed in that regard at all by this Bill. I have had evidence from the University and College Union, but I have not seen anything—let me be careful here: I do not believe that I have seen anything from it on this point. If it has put it to you, that is interesting. However, I fail to see how this Bill changes the situation with regard to the Welsh language.”⁸¹

Ein barn ni

145. *Byddem yn bryderus iawn pe bai unrhyw ddarpariaethau yn y Bil yn arwain at leihau cymorth neu ddarpariaethau ar gyfer y Gymraeg ymysg cyrff AB. Fodd bynnag, rydym yn fodlon nad yw'r Bil yn gwneud unrhyw newidiadau sylweddol yn hyn o beth.*

Cymorth ar gyfer Dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol

146. Rydym yn ddiolchgar i'r Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar am dynnu ein sylw at nifer o faterion mewn perthynas â chymorth i ddefnyddwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae eu

⁷⁹ Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 nawm.1

⁸⁰ Ymateb ysgrifenedig UCAC (FEHE 9), tudalen 4

⁸¹ Trawsgrifiad PPI 19 Mehefin, paragraff 42

cyflwyniad llawn i'r Pwyllgor⁸² ar gael ar dudalennau'r Pwyllgor ar y we. Fodd bynnag, roedd eu pwyntiau'n cynnwys:

- Dylai Gweinidogion allu parhau i gasglu data am sut mae Sefydliadau Addysg Bellach yn ymateb i anghenion cymorth dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Dylai Gweinidogion Cymru allu ymyrryd os nad yw Sefydliadau Addysg Bellach yn rhoi cymorth priodol i ddysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Dylid ystyried sut y bydd y Bil yn cael ei weithredu ar y cyd â'r diwygiadau arfaethedig i gymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol;
- Dylai rheoliadau mewn perthynas â diddymu trefniadau ar gyfer Sefydliadau Addysg Bellach gynnwys darpariaeth yn benodol i sicrhau bod anghenion dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn cael eu hystyried.

Ein barn ni

147. Er nad ydym wedi'n hargyhoeddi bod y materion a godwyd gan y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar yn gofyn am newidiadau i'r Bil, rydym yn cytuno bod angen i Lywodraeth Cymru eu hystyried yn ofalus a chyflwyno gwelliannau priodol os oes angen.

Argymhelliad 11: Rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn ystyried yn ofalus effaith y Bil ar ddarpariaeth ar gyfer dysgwyr sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

⁸² Tystiolaeth ysgrifenedig y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (FEHE11)

Atodiad A – Rhestr o’r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd yr unigolion a’r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i’r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=6772>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
ColegauCymru	FEHE 1
ColegauCymru	FEHE 1A
ColegauCymru	FEHE 1B
Coleg Gwent	FEHE 2
Undeb Prifysgol a Choleg Cymru	FEHE 3
Undeb Prifysgol a Choleg (UCU Cymru)	FEHE 4 FEHE 4A FEHE 4B
Estyn	FEHE 5
Undeb Prifysgol a Choleg, Cangen Crosskeys	FEHE 6
UNSAIN Cymru	FEHE 7
Cymdeithas Ddysgedig Cymru	FEHE 8
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)	FEHE 9
Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr	FEHE 10
Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar	FEHE 11
NIACE Dysgu Cymru	FEHE 12
Addysg Uwch Cymru	FEHE 13 FEHE 13A
NASUWT, Cymru	FEHE 14
Prifysgol Caerdydd	FEHE 15
Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru	FEHE 16
Agored Cymru	FEHE 17
CITB Cymru	FEHE 18
Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a	FEHE 19

Sgiliau

Y Cwmni Benthyciadau i Fyfirwyr (Cyllid
Myfirwyr Cymru)

FEHE 20

Bu'r Pwyllgor hefyd yn ystyried yr ohebiaeth ganlynol, y gellir ei gweld yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=7266>

Cyfeirnod	Dyddiad
CYP(4)-18-13 (tud.7) Llythyr gan Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru	4 Mehefin 2013
CYP(4)-21-13(tud.2) - Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau	12 Mehefin 2013
CYP(4)-20-13(tud.1) - Ymateb y Cadeirydd i Leighton Andrews AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau - Yn dilyn cyfarfod ar 19 Mehefin 2013	20 Mehefin 2013
CYP(4)-20-13(tud.2) - Ymateb y Cadeirydd i Ysgrifennydd Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cabinet (Llywodraeth yr Alban)	20 Mehefin 2013
CYP(4)-20-13(tud.3) - Ymateb gan Ysgrifennydd Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cabinet (Llywodraeth yr Alban)	26 Mehefin 2013
CYP(4)-20-13(tud.4) - Llythyr gan y Cadeirydd at Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau newydd	27 Mehefin 2013
CYP(4)-20-13(tud.5) - Ymateb gan Huw Lewis, y Gweinidog Addysg a Sgiliau	2 Gorffennaf 2013

Atodiad B – Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth yn

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=6429>

<i>Dyddiad</i>	<i>Sefydliad</i>
15 Mai 2013 148. a	Leighton Andrews AC , Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Llywodraeth Cymru Andrew Clark , Dirprwy Gyfarwyddwr, Yr Isadran Addysg Bellach a Phrentisiaethau, Llywodraeth Cymru Grace Martins , Uwch Gyfreithiwr, Llywodraeth Cymru
23 Mai 2013	John Graystone , Prif Weithredwr, ColegauCymru David Jones , Cyn-gadeirydd, ColegauCymru, Prifathro, Coleg Glannau Dyfrdwy a Darpar Brifathro, Coleg Cambria Mark Jones , Cadeirydd, ColegauCymru; Prifathro, Coleg Pen-y-bont ar Ogwr a Darpar Brifathro, Coleg Gŵyr Abertawe
23 Mai 2013	David Wallace , Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol a Chyfarwyddwr Datblygu Strategol, Cyllid Myfyrwyr Cymru
5 Mehefin 2013	Chris Jones , Cadeirydd Pwyllgor Sector Addysg Bellach Undeb Prifysgol a Choleg (Cymru) Margaret Phelan , Swyddog Rhanbarthol, Undeb Prifysgol a Choleg (Cymru) Lisa Edwards , Swyddog Cyswllt Gwleidyddol Dros Dro, Undeb Prifysgol a Choleg (Cymru)

- 5 Mehefin 2013** **Kieron Rees**, Swyddog Polisi a
Chynrychiolaeth, Undeb Cenedlaethol
Myfyrwyr Cymru
- 13 Mehefin 2013** **Gareth Williams**, Rheolwr Gyrfaoedd a
Chymwysterau CITB Cymru, Sgiliau
Adeiladu Cymru
- 13 Mehefin 2013** **Yr Athro April McMahon**, Is-ganghellor,
Prifysgol Aberystwyth
Yr Athro Medwin Hughes, Is-ganghellor,
Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, a
Phrifysgol Metropolitan Abertawe y
Drindod Dewi Sant, a Phrifysgol Cymru
Ben Arnold, Cyngorydd Polisi, Addysg
Uwch Cymru
- 19 Mehefin 2013** Y Swyddfa Ystadegau Gwladol
(sesiwn breifat)